

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

22/2022

DYDDIAD CYHOEDDI:

24/03/2022

Profiadau gwladolion yr UE yn y DU - Adolygiad o Lenyddiaeth i hysbysu Prosiect Cysylltu Data Statws Preswlydd Sefydlog yr UE

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-830-3

Profiadau gwladolion yr UE yn y DU - Adolygiad o Lenyddiaeth i hysbysu Prosiect Cysylltu Data Statws Preswlydd Sefydlog yr UE

Awdur(on): Ffion Lloyd-Williams, Kathryn Helliwell, Stephen Drinkwater

Adroddiad Ymchwil Llawn: Lloyd-Williams F, Helliwell K, Drinkwater S. (24/03/2022). Profiadau gwladolion yr UE yn y DU – Adolygiad o Lenyddiaeth i hysbysu Prosiect Cysylltu Data Statws Preswlydd Sefydlog yr UE. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 22/2022.
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/y-cynllun-preswylion-sefydlog-i-ddinasyddion-yr-ue-euss-adolygiad-or-lenyddiaeth>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Enw: Ffion Lloyd-Williams

Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS), YDG Cymru

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ad.euss@gov.wales neu ad.euss@llyw.cymru

Tabl cynnwys

[Rhestr o ffigurau](#)

[Geirfa](#)

[Crynodeb](#)

1. [Cefndir](#)

2. [Methodoleg](#)

2.1 [Cynllun yr astudiaeth](#)

2.2 [Strategaeth chwilio](#)

2.3 [Meini prawf dethol a chynhwysiant yr astudiaeth](#)

2.4 [Echdynnu a rheoli data](#)

2.5 [Synthesis data](#)

3. [Canfyddiadau](#)

3.1 [Dinasyddion yr UE yn byw yng Nghymru](#)

3.2 [Iechyd](#)

3.3 [Addysg a Phlant](#)

3.2 [Cyflogaeth](#)

3.3 [Budd-daliadau a Lles](#)

3.4 [Profiad Dinasyddion yr UE o fyw yn y DU](#)

4. [Trafodaeth](#)

5. [Casgliad](#)

[Diolchiadau](#)

[Cyfeiriadau](#)

[Atodiad A](#)

Rhestr o ffigurau

[Ffigwr 3.1: Diagram Llif PRISMA.....11](#)

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
Gwledydd A3	Y Weriniaeth Tsiec, Hwngari, Slofacia
Gwledydd A8	Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia, Slofenia
EUSS	Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE
AEE	Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)
Gwledydd UE2	Bwlgaria, Rwmania
Gwledydd UE8	Y Weriniaeth Tsiec; Estonia; Hwngari; Latfia; Lithwania; Gwlad Pwyl; Slofacia; Slofenia
UE12 (1 Tachwedd 1993 - 31 Rhagfyr 1994)	Gwlad Belg, Denmarc, Ffrainc, Yr Almaen, Gwlad Groeg, Iwerddon, Yr Eidal, Lwcsembwrg, Yr Iseldiroedd, Portiwgal, Sbaen, Y Deyrnas Unedig
UE15 (1 Ionawr 1995 - 30 Ebrill 2004)	UE12 + Awstria, Y Ffindir, Sweden
UE25 (1 Mai 2004 - 31 Rhagfyr 2006)	UE15+ Cyprus, Tsiecia, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Malta, Gwlad Pwyl, Slofacia, Slofenia (SI)
UE27_2007 (1 Ionawr 2007 - 30 Mehefin 2013)	UE-25 + Bwlgaria, Rwmania
UE28 (o 1 Gorffennaf 2013)	UE27 (2007) + Croatia
UE27 (o 1 Chwefror 2020)	UE28 - Y Deyrnas Unedig (gadawodd yr UE)

Crynodeb

Nod yr adolygiad hwn o lenyddiaeth oedd archwilio a chrynhoi llenyddiaeth gyhoeddedig yn ymwneud â phrofiad gwladolion yr UE yn y DU cyn ac ar ôl refferendwm yr UE 2016 er mwyn llywio prosiect cysylltu data EUSS.

Dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru: Dangoswyd bod ymfudwyr o'r UE wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol yng Nghymru o ran eu rôl yn y farchnad lafur a'u heffaith ar Economi Cymru. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth yn dangos bod mudwyr o'r UE yng Nghymru yn tueddu i gael eu cyflogi mewn gwaith sgiliau isel yr oedd ganddynt ormod o gymwysterau ar ei gyfer ond ar yr un pryd yn ei chael yn anodd gwella eu rhagolygon swyddi oherwydd rhwystrau iaith a diffyg amser i wella eu Saesneg.

Iechyd: Roedd y dystiolaeth yn awgrymu ei bod yn ymddangos bod agweddau negyddol ar iechyd meddwl yn gyffredin cyn refferendwm yr UE o ran integreiddio a chysylltiadau oherwydd gwahaniaethu, arwahanrwydd ac anghynefindra â'r diwylliant. Fodd bynnag ar ôl y refferendwm mae'n ymddangos bod teimladau o anniogelwch o fewn y DU wedi gwaethygu oherwydd ansicrwydd canfyddedig am y dyfodol a theimladau o wrthodiad.

Plant ac Addysg: Roedd y dystiolaeth yn dangos bod plant a phobl ifanc yn wynebu bregusrwydd arbennig mewn perthynas â dinasyddiaeth Brydeinig a'r EUSS. Roedd hyn oherwydd man geni, diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth rhieni ynghylch pryd y gall eu plant gael eu cofrestru fel dinesydd Prydeinig, a chymhwysedd rhieni, nad ydynt wedi bod yn byw yn gyfreithlon, i gael dinasyddiaeth.

Iaith a diffyg cynefindra â system addysg y DU oedd yn achosi'r rhwystr mwyaf mewn addysg i blant dinasyddion yr UE.

Roedd addysg oedolion yn cael ei weld fel profiad mwy cadarnhaol, gyda dinasyddion yr UE yn gallu caffael sgiliau newydd a gwella eu Saesneg ac yn cael ei weld fel ffordd o sicrhau gwell cyfleoedd cyflogaeth.

Cyflogaeth: Awgrymai'r dystiolaeth bod llawer o ddinasyddion yr UE yn orgymwys ar gyfer eu cyflogaeth, yn enwedig y rheini mewn gwaith di-sgil. Mae defnydd dinasyddion yr UE yn

y farchnad lafur yn amrywiol o ran y sector cyflogaeth, statws economaidd-gymdeithasol, a hyd amser yn y DU.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu y gallai gwladolion iau a gwell cymwysedig yr UE a'r rhai sydd wedi symud i'r DU yn y blynyddoedd diwethaf adael y DU, fodd bynnag, mae mwyafrif y dystiolaeth yn awgrymu, er bod canlyniad refferendwm yr UE wedi dod yn sioc ac wedi creu ansicrwydd, bwriad dinasyddion yr UE oedd parhau i fyw yn y DU, o leiaf yn y tymor byr i ganolig.

Budd-daliadau a Lles: Roedd dystiolaeth yn dangos bod dinasyddion yr UE yn llai tebygol na rhai a aned yn y DU o hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth neu greydau treth, gyda mudwyr o'r UE2 (Bwlgaria, Rwmania) yn hawlio budd-daliadau dim ond 74% o ddinasyddion yr UE8 (Y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia, Slofenia). Roedd dinasyddion yr UE yn fwy tebygol o hawlio budd-daliadau mewn-gwaith na budd-daliadau diweithdra na'r rhai a aned yn y DU, ac roedd gan ddinasyddion yr UE8 a'r UE2 debygolrwydd cyflogaeth tebyg.

Profiad Dinasyddion yr UE o Fyw yn y DU: Er bod refferendwm yr UE wedi gwneud i ddinasyddion yr UE deimlo'n fwy ansicr am y dyfodol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod penderfyniadau i wneud cais am statws sefydlog yn gymhleth. Er enghraifft, ystyriaethau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys ffioedd ymgeisio, cyfyngiadau cymhwysedd, a'r hawl i genedligrwydd deuel.

Mae dystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses ymgeisio am EUSS yn nodi cynllun cymhleth i ddechrau, sydd wedi'i symleiddio i ryw raddau, ond sy'n dal i fod yn rhwystr rhag cyflawni statws sefydlog i lawer o wladolion yr UE sy'n byw yn y DU.

Casgliadau: Wrth inni symud i mewn i'r oes wedi'r Cytundeb Ymadael a'r ôl Covid-19, rydym yn dechrau cyfnod o ansicrwydd ynghylch effaith tymor canolig i hirdymor ymadawiad y DU â'r UE. Wrth symud ymlaen, mae angen ymchwil pellach i fonitro ac asesu costau gadael yr UE ar gyfer y DU mewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd.

1. Cefndir

Yn dilyn refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn 2016 datblygodd llywodraeth y DU y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS), a lanswyd ar 30^{ain} Mawrth 2019. Cyflwynwyd yr EUSS ar gyfer amcangyfrif o 3.7 miliwn o ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir a'u teuluoedd sy'n byw yn y DU a oedd yn dymuno cadw eu statws preswyllo a gweithio yn y DU wedi i symudiad rhydd ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Roedd ymgeiswyr EUSS i fod i fod wedi sefydlu eu preswyllo yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020, a gwneud cais i EUSS erbyn diwedd mis Mehefin 2021.

Mae pobl sydd wedi byw yn y DU am o leiaf bum mlynedd yn gymwys i gael 'statws preswyllo sefydlog', sy'n rhoi'r hawl iddynt fyw'n barhaol yn y DU a gwneud cais yn ddiweddarach am ddinasyddiaeth y DU os ydynt yn dewis gwneud hynny. Mae pobl sydd wedi byw yn y DU am lai na phum mlynedd yn gymwys i gael 'statws preswyllo cyn-sefydlog' a gallant wneud cais am statws preswyllo sefydlog unwaith y byddant yn byw yno am bum mlynedd. Mae plant dan 21 oed yn gymwys i gael statws preswyllo sefydlog os yw un o'u rhieni wedi cael statws preswyllo sefydlog, hyd yn oed os nad oes ganddo bum mlynedd o breswyllo (er enghraifft pan fo'r plant yn llai na phum mlynedd oed neu wedi cyrraedd yn hwyrach na'u rhiant). Mae statws cyn-sefydlog yn caniatáu i bobl fyw, gweithio ac astudio yn y DU er bod rhai amodau yn fwy cyfyngol. Er enghraifft, mae mynediad at rai budd-daliadau i bobl economaidd anweithgar sydd â statws preswyllo cyn-sefydlog wedi'i gyfyngu ac os oes ganddynt blentyn yn y DU, ni fyddai'r plentyn yn ddinasydd y DU yn awtomatig adeg ei eni. Mae statws cyn-sefydlog yn para am 5 mlynedd a rhaid i bobl â'r statws hwn ailymgeisio i'r EUSS i gael statws sefydlog os ydynt am aros yn y DU y tu hwnt i'r pwynt hwnnw (Sumption a Fernández-Reino 2020).

Hyd at 31 Mawrth 2021, roedd ychydig dros 5.3 miliwn (5,301,470) o geisiadau am statws sefydlog wedi'u derbyn yn y DU, gyda 90% yn Lloegr, 5% yn yr Alban, 2% yng Nghymru a 2% yng Ngogledd Iwerddon. Ar draws yr holl genhedloedd, daeth y niferoedd uchaf o geisiadau gan wladolion Pwylaidd, Rwmania ac Eidalaid. Roedd gwladolion Pwylaidd a Rwmania yn gyson ymhlith y niferoedd uchaf o geisiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ar gyfer Gogledd Iwerddon, gwladolion Pwylaidd a Lithwania oedd yn cyfrif am y nifer fwyaf o geisiadau. Canran y geisiadau yn ôl grŵp oedran yng Nghymru oedd 14.3% ar gyfer rhai dan 18 oed, 83% ar gyfer rhai 18 i 64 oed, a 2.7% ar gyfer 65 oed a throsodd, cyfran debyg i Loegr a'r Alban. Roedd ychydig llai na 5 miliwn (4,977,740) o geisiadau wedi'u cwblhau hyd at 31 Mawrth 2021. O'r canlyniadau a gwblhawyd, dyfarnwyd statws preswyllo sefydlog i 53% (2,623,720), dyfarnwyd statws preswyllo sefydlog i 44% (2,173,270) a chafodd 3% ganlyniadau eraill. Roedd y canlyniadau terfynol y rhoddwyd statws sefydlog iddynt yn uwch ar gyfer Gogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban (61%, 58%, 56%, yn y drefn

honno), o gymharu â Lloegr (53%). Roedd y pump uchaf o ran ceisiadau a gwblhawyd yng Nghymru ar gyfer gwladolion Pwylaidd (25,860), Rwmania (11,750), Bwlgaria (5,310), Portiwgal (5,220), a'r Eidal (4,870) (Swyddfa Gartref 2021).

Mae Prosiect Cysylltu Data Statws Preswlydd Sefydlog yr UE yn fenter Ymchwil Data Gweinyddol (ADR Cymru) ddeilliodd o'r angen i wella'r sylfaen dystiolaeth ar ddinasyddion yr UE yng Nghymru sy'n rhan o'r Cynllun Preswlyo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Ei nod yw cysylltu data'r Swyddfa Gartref yn ddienw â data arall a gedwir eisoes yn y Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL) a gynhelir gan Brifysgol Abertawe. Mae data EUSS yn gysylltiedig â sawl set ddata arall ym Manc Data SAIL mewn perthynas ag iechyd (gan gynnwys iechyd meddwl), ymwneud â'r gweithlu ac addysg. Mae'r cyfoeth o ddata ym Manc Data SAIL yn rhoi'r cyfle i ddatblygu grŵp rheoli sy'n cyfateb yn agos i ddinasyddion nad ydynt yn rhan o'r EUSS. Y nod yw nodi a oes gan ddinasyddion yr EUSS brofiadau gwahanol i ddinasyddion Prydeinig a thynnu sylw at feysydd posibl o wahaniaethu neu anghydraddoldeb a datblygu set ddata a fydd yn galluogi ymchwilwyr a llunwyr polisi i ddeall yn well brofiadau dinasyddion yr UE sydd â statws cyn-sefydlog a sefydlog, ac felly datblygu polisi a gwasanaethau mwy gwybodus sy'n mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth hon a allai fod yn agored i niwed.

Nod yr adolygiad hwn o lenyddiaeth oedd archwilio a chrynhoi llenyddiaeth gyhoeddedig yn ymwneud â phrofiad gwladolion yr UE yn y DU cyn ac ar ôl refferendwm yr UE 2016 er mwyn llywio prosiect cysylltu data EUSS. Gan fod prosiect cysylltu data EUSS yn canolbwyntio ar ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru, mae adran benodol wedi'i chynnwys yn y canfyddiadau sy'n ymwneud â llenyddiaeth yn y maes hwn. Mae gweddill y canfyddiadau yn adrodd ar lenyddiaeth yn ymwneud ag iechyd, addysg a phlant, cyflogaeth, budd-daliadau a lles, a phrofiad dinasyddion yr UE o fyw yn y DU. Mae'r adran nesaf yn rhoi disgrifiad o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr adolygiad llenyddiaeth.

2. Methodoleg

2.1 Cynllun yr astudiaeth

Cynhaliom adolygiad o lenyddiaeth i archwilio profiadau gwladolion yr UE yn y DU rhwng 2010 a diwedd mis Mawrth 2021, er mwyn darparu amserlen ddigonol ar gyfer y cyfnod cyn ac ar ôl refferendwm yr UE. Er mwyn sicrhau arweiniad priodol, fe wnaethom gadw at restr wirio PRISMA (Eitemau Adrodd a Ffefrir ar gyfer Adolygiadau Systematig a Meta-ddadansoddiadau) (Rhestr Wirio PRISMA 2020).

2.2 Strategaeth chwilio

Roedd y strategaeth chwilio yn cynnwys cyfuniad o setiau o brif eiriau allweddol: “Gwladolyn yr UE*” “dinesydd yr UE*” “EUSS*” “Statws Preswylydd Sefydlog yr UE*” “Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE*” “Brexit” “Refferendwm y DU/UE*” “ymfudwr EUSS*” a geiriau allweddol eilaidd: AC “iechyd*” NEU “iechyd meddwl*” NEU “budd-daliadau*” NEU “lles*” NEU “cyflogaeth*” NEU “gwaith*” NEU “addysg*” NEU “ysgol*” NEU “marchnad lafur*” NEU “Prifysgol*”.

Buom yn chwilio gwefannau allweddol (Cochrane Collaboration, Campbell Collaboration, Centre for Reviews and Dissemination, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd, y DU (Swyddfa Gartref), Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Sefydliad Iechyd y Byd (Ewrop), y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Sefydliad Joseph Rowntree, Work Foundation) a chronfeydd data electronig (PubMed; ScienceDirect; SCOPUS; Web of Knowledge, Cochrane Database of Systematic Reviews; The Campbell Library a Google Scholar) ar gyfer papurau ac adroddiadau cyhoeddiedig perthnasol. Cafodd rhestrau cyfeirio o lenyddiaeth gynhwysol eu sganio hefyd am bapurau ychwanegol posibl.

Buom yn chwilio am yr holl lenyddiaeth berthnasol a gyhoeddwyd o 2010 ymlaen. Cynhaliwyd y chwiliadau terfynol ym mis Mawrth 2021. Mewnforiwyd yr holl lenyddiaeth a nodwyd gan y chwiliadau i raglen rheoli data Zotero i nodi copïau dyblyg a helpu sgrinio teitlau, crynodebau a thestunau llawn fel y bo'n briodol.

2.3 Meini prawf dethol a chynhwysiant yr astudiaeth

Cynhwyswyd astudiaethau a oedd ganddynt ffocws penodol ar brofiad gwladolion yr UE ers refferendwm yr UE yn 2016, ond bu'r adolygiad hefyd yn ystyried llenyddiaeth ar eu profiadau cyn 2016 i roi rhyw syniad a oedd unrhyw faterion yn ymwneud â'r refferendwm

a/neu Brexit neu sydd yn fwy hirdymor eu natur. Astudiaethau Saesneg yn unig a gynhwyswyd. Fe wnaethom gynnwys ystod eang o gynlluniau astudio gan gynnwys astudiaethau cynradd, adolygiadau systematig (SRs), rhai nad ydynt yn SRs, astudiaethau arsylwi empirig, arbrofion naturiol, astudiaethau modelu, dadansoddiad eilaidd, ac adroddiadau cenedlaethol/llywodraethol. Sylwebaeth/erthyglau barn; data/ystadegau o fonitro a gwylidwriaeth nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gwladolion yr UE; cafodd adolygiadau/astudiaethau o fewnfudo yn ymwneud â gwladolion nad ydynt yn o'r UE eu heithrio. Cafodd astudiaethau ar unigolion yn hytrach na grwpiau neu boblogaethau cyfan eu heithrio hefyd. Cynhwyswyd astudiaethau ar gyfer pob grŵp oedran ar gyfer holl boblogaethau gwladol yr UE yn y DU. Amlygwyd astudiaethau gyda ffocws penodol i Gymru.

Cynhaliodd un adolygydd (FLW) y chwiliadau; tynnu papurau posibl a thynnu copiâu dyblyg a theitlau wedi'u sgrinio a chrynodebau ar gyfer cymhwysedd gan ddefnyddio'r meini prawf cynnwys ac eithrio a nodir uchod. Adalwyd testun llawn ar gyfer yr holl bapurau y tybiwyd y gallent fod yn gymwys a chafodd y rhain eu sgrinio hefyd. Datryswyd ansicrwydd ynghylch perthnasedd llenyddiaeth trwy drafod â thrydydd parti (KH).

2.4 Echdynnu a rheoli data

Defnyddiwyd tablau wedi'u cynllunio ymlaen llaw ac wedi'u rhag-beilotio i dynnu data o'r holl bapurau a gynhwyswyd. Er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu, roedd y data a echdynwyd yn cynnwys: awdur cyntaf; blwyddyn cyhoeddi; teitl; math o gyhoeddiad; lleoliad/poblogaeth; nod(au)/prif ffocws; cynllun; prif ganfyddiadau; canlyniadau; a chyfyngiadau.

2.5 Synthesis data

Deilliannau o ddi-ddordeb oedd profiadau yn ymwneud ag: lechyd (yn enwedig iechyd meddwl), defnydd o fudd-daliadau a lles, cyflogaeth, ac addysg. Cafodd y llenyddiaeth ei chategoreiddio naill ai fel adroddiad neu erthygl mewn cyfnodolyn.

Cafodd profiad gwladolion yr UE o ran y canlyniadau uchod eu chategoreiddio fel a ganlyn: Cyn refferendwm yr UE (Mehefin 2016)

Ar ôl refferendwm yr UE hyd at Chwefror 2019


Ar ôl refferendwm yr UE o fis Mawrth 2019 pan agorwyd yr EUSS yn llawn.

Dadansoddwyd y data o lenyddiaeth a gynhwyswyd yn thematig a'i syntheseiddio fel adolygiad naratif. Cyflwynir data yn naratif, gyda thablau ac arddangosiadau graffigol (lle bo'n briodol).

3. Canfyddiadau

Canfu'r chwiliad llenyddiaeth 214 o bapurau a allai fod yn berthnasol. Ar ôl dileu 12 o gopiau dyblyg, gadawyd 202 o gyhoeddiadau i'w sgrinio yn ôl teitl a chrynodebau, ac ar ôl hynny aseswyd cymhwysedd 174 o bapurau testun llawn. Cafodd cyfanswm o 80 o bapurau eu cynnwys yn y diwedd (48 o erthyglau cyfnodolion a 32 o adroddiadau, Ffigur 3.1). Mae gwybodaeth am bob cyhoeddiad sydd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad llenyddiaeth hwn wedi'i chrynhoi yn Atodiad A.

Ffigur 1 Diagram Llif PRISMA



3.1 Dinasyddion yr UE sy'n Byw yng Nghymru

Nodwyd deg cyhoeddiad yn ymwneud â dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 2020; Hepburn a Bell 2020; Sefydliad Bevan 2019; Guma a Jones 2018; Kelly a McNicoll 2017; Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 2016; Porter et al 2016; Knight et al. 2014; Lemos 2014; Oxford Economics 2011), roedd chwe adroddiad (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 2020; Sefydliad Bevan 2019; Hepburn a Bell 2020; Kelly a McNicoll 2017; Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 2016; Oxford Economics 2011), ac roedd pedwar yn erthyglau cyfnodolion academiaidd (Guma a Jones 2018; Porter et al 2016; Knight et al. 2014; Lemos 2014). Roedd pedwar cyhoeddiad cyn refferendwm yr UE (Porter et al 2016; Knight et al. 2014; Lemos 2014; Oxford Economics 2011), roedd pedwar cyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE hyd at Chwefror 2019 (Sefydliad Bevan 2019; Guma a Jones 2018; Kelly a McNicoll 2017; Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 2016), a dau gyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE o fis Mawrth 2019 pan agorwyd yr EUSS yn llawn (Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 2020; Hepburn a Bell 2020).

Roedd prif ffocws y dystiolaeth yn ymwneud â chyfraniad ymfudwyr o'r UE i'r farchnad lafur yng Nghymru, eu rôl a'u profiad ohoni (Knight et al. 2014; Lemos 2014; Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 2016; Hepburn a Bell 2020), yr effaith ar Economi Cymru (Oxford Economics 2011, Kelly a McNicoll 2017; Sefydliad Bevan 2019) a sut y gallai ymadawiad y DU â'r UE effeithio ar y ddau. Dangoswyd bod ymfudwyr o'r UE wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol yng Nghymru yn y ddau faes hyn (Knight et al. 2014; Sefydliad Bevan 2019; Hepburn a Bell 2020). Fodd bynnag, roedd ymfudwyr o'r UE yng Nghymru yn tueddu i gael eu cyflogi mewn gwaith sgiliau isel yr oedd ganddynt ormod o gymwysterau ar ei gyfer (Knight et al. 2014; Lemos 2014; Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 2016), ac ar yr un pryd yn ei chael yn anodd gwella eu rhagolygon swyddi oherwydd rhwystrau iaith a diffyg amser i wella eu hiaith Saesneg (Porter et al. 2016; GSR 2020). Lle bu gwelliant mewn sgiliau iaith Saesneg dros gyfnod o amser, felly hefyd y rhagolygon swyddi ac ehangu rhwydweithiau cymdeithasol (Porter 2016). Ar ôl i'r DU ymadael â'r UE, amlygwyd yr effaith negyddol bosibl ar economi Cymru oherwydd ymfudwyr yn penderfynu gadael y DU ac ymfudwyr nad oedd â'r hawliau i ddod i mewn i'r DU fel pryderon a materion allweddol y dylai Llywodraeth Cymru fod yn eu trafod ac yn mynd i'r afael â hwy (Hepburn a Bell 2020; Sefydliad Bevan 2019). Yn baradocsaidd, canfu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gynt y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (2016) fod bron i dri chwarter y bobl a holwyd yng Nghymru yn meddwl bod gweithwyr mudol yr UE yn dod â mwy o gostau na buddion i economi Cymru. Amlygodd ymchwil ansoddol Guma a Jones (2018) brofiadau ac emosiynau gwladolion yr UE yng Nghymru ar ôl y refferendwm, gyda llawer yn profi gelyniaeth a thrais ac yn teimlo ymdeimlad o ansicrwydd ac anniogelwch.

3.2 Iechyd

Nodwyd wyth cyhoeddiad yn ymwneud ag iechyd dinasyddion yr UE (Teodorowski 2021; Martynowska K. et al. 2020; Phung 2020, Teodorowski 2020; Teodorowski 2019; Maciagowska a Hanley 2017; Porteous 2017; Weishaar 2010), roedd dau yn adroddiadau (Teodorowski 2019; Porteous 2017), a chwech yn erthyglau cyfnodolion academaidd (Teodorowski 2021; Martynowska K. et al. 2020; Phung 2020, Teodorowski 2020; Maciagowska a Hanley 2017; Weishaar 2010). Roedd un cyhoeddiad cyn refferendwm yr UE (Weishaar 2010), roedd dau gyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE hyd at Chwefror 2019 (Maciagowska a Hanley 2017; Porteous 2017), a phum cyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE o fis Mawrth 2019 pan agorwyd yr EUSS yn llawn (Teodorowski 2021; Teodorowski 2020; Martynowska K. et al. 2020; Phung 2020, Teodorowski 2019).

Iechyd meddwl dinasyddion yr UE oedd ffocws mwyafrif y dystiolaeth (Weishaar 2010; Maciagowska a Hanley 2017, Porteous 2017; Teodorowski 2019; Martynowska K. et al. 2020; Teodorowski 2020; Teodorowski 2021). Adroddodd pedwar o'r saith (Maciagowska a Hanley 2017; Teodorowski 2019; Teodorowski 2020; Teodorowski 2021) iechyd meddwl negyddol ar gyfer ymfudwyr i'r DU. Ymddengys bod agweddau negyddol ar iechyd meddwl yn gyffredin cyn refferendwm yr UE o ran integreiddio a chysylltiadau oherwydd gwahaniaethu, arwahanrwydd ac anghyneffindra â'r diwylliant. Fodd bynnag ar ôl y refferendwm mae'n ymddangos bod teimladau o ansicrwydd a derbyniad o fewn y DU wedi gwaethygu oherwydd ansicrwydd ynghylch y dyfodol a theimladau o wrthod (Maciagowska a Hanley 2017, Teodorowski 2019; Teodorowski 2020; Teodorowski 2021). Er i adolygiad systematig Maciagowska a Hanley nodi agweddau cadarnhaol gan gynnwys rhyddid, cyfleoedd newydd, mecanweithiau ymdopi gan gynnwys optimistiaeth, cyfalaf cymdeithasol a diwylliant, daeth yr awduron i'r casgliad bod y llenyddiaeth a adolygwyd yn cael ei dominyddu gan ei heffeithiau negyddol ar iechyd meddwl. Porteous (2017) a Phung et al. (2020) adroddodd y ddau ar ddefnydd a phrofiadau o ofal iechyd yn y DU. Soniodd y ddau am anawsterau o ran mynediad a defnydd oherwydd rhwystrau iaith a dealltwriaeth o sut roedd system iechyd y DU yn gweithredu, er enghraifft, diffyg hunanatgyfeiriadau sy'n gyffredin yng ngwledydd canolbarth a dwyrain Ewrop. Adroddodd adolygiad systematig Phung et al ei bod yn gyffredin i ymfudwyr ddychwelyd i'w mamwlad i gael gofal iechyd oherwydd ei fod yn gyfarwydd.

3.3 Addysg a Phlant

Nodwyd pymtheg o gyhoeddiadau'n ymwneud ag addysg a phlant (Falkingham 2021; Zontini 2020; Stalford 2020a; Stalford 2020b; Sime 2020a; Sime 2020b; Fernández-Reino 2020; Sigona 2019; Manzoni 2019; Tyrrell 2019; Greater Manchester Immigration Aid Unit 2019; Yeo 2018; Sumption 2018; Porteous 2017; Sime et al. 2017), roedd chwech yn adroddiadau (Stalford 2020a; Stalford 2020b; Fernández-Reino 2020; Yeo 2018; Sumption 2018; Sime et al. 2017), ac roedd naw yn erthyglau cyfnodolion academiaidd (Falkingham 2021; Zontini 2020; Sime 2020a; Sime 2020b; Sigona 2019; Manzoni 2019; Tyrrell 2019; Greater Manchester Immigration Aid Unit 2019; Porteous 2017). Roedd pum cyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE hyd at Chwefror 2019 (Tyrrell 2019; Yeo 2018; Sumption 2018; Sime et al. 2017; Porteous 2017), a deg cyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE o fis Mawrth 2019 pan agorwyd EUSS yn llawn (Falkingham 2021; Zontini 2020; Stalford 2020a; Stalford 2020b; Sime 2020a; Sime 2020b; Fernández-Reino 2020; Sigona 2019; Manzoni 2019; Greater Manchester Immigration Aid Unit 2019;).

Roedd mwyafrif y cyhoeddiadau a nodwyd yn adrodd ar brofiad plant a phobl ifanc o fyw yn y DU ar ôl i'r DU adael yr UE (Sime et al. 2017; Yeo 2018; Greater Manchester Immigration Aid Unit 2019; Sigona 2019; Tyrrell 2019; Sime 2020; Sime et al. 2020; Fernández-Reino 2020; Zontini 2020; Stalford 2020a; Stalford 2020b). Mae canfyddiadau'n awgrymu bod ymadawiad y DU â'r UE wedi creu ymdeimlad o ansicrwydd ac ansicrwydd ymhlith plant a phobl ifanc. Wrth adrodd am ymdeimlad o berthyn a setlo yn y DU, nododd astudiaethau ansicrwydd ynghylch y dyfodol o ran eu statws cyfreithiol a mwy o ymdeimlad o hiliaeth a senoffobia. Er bod dinasyddion ifanc yr UE yn teimlo mwy o affinedd â'r DU na'u mamwlad, ni wnaethant ddiystyru'r posibilrwydd o ymfudo eto fel yr oedd eu rhieni wedi'i wneud cyn ymadawiad y DU â'r UE.

Amlygwyd y bregusrwydd sy'n wynebu plant a phobl ifanc mewn perthynas â dinasyddiaeth Brydeinig a'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) gan chwech o'r cyhoeddiadau a adolygwyd (Yeo 2018; Greater Manchester Immigration Aid Unit 2019; Sumption 2018; Stalford 2020a; Stalford 2020b; Fernández-Reino 2020). Disgrifiodd Yeo (2018) a Sumption (2018) cymhlethdod caffael dinasyddiaeth Brydeinig ar gyfer plant dinasyddion yr UE ar ôl ymadawiad y DU â'r UE. Roedd hyn oherwydd man geni, diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth rhieni ynghylch pryd y gall eu plant gael eu cofrestru fel dinesydd Prydeinig, a chymhwysedd rhieni, nad ydynt wedi bod yn byw yn gyfreithlon, i gael dinasyddiaeth. Er bod plant ac oedolion sy'n ddinasyddion yr UE wedi bod yn llai tebygol o wneud cais am ddinasyddiaeth y DU na thrigolion â chenedligrwydd y tu allan i'r UE, (o bosibl oherwydd teimlo'n fwy diogel yn eu statws mewn fudo oherwydd yr amddiffyniadau a gynigir gan gyfraith yr UE, ac felly'n teimlo nad oedd angen dod yn ddinesydd) (Moreh et al,

2018), mae tystiolaeth yn awgrymu, ers refferendwm yr UE, fod nifer dinasyddion yr UE wedi derbyn dinasyddiaeth y DU cynyddu'n sydyn o'r lefelau isel blaenorol (Fernández-Reino 2020). Mae heriau gyda chymhwysedd plant a'u gallu i wneud cais am yr EUSS yn cael eu gwaethygu ymhellach ar gyfer grwpiau o blant sy'n agored i niwed, fel y rhai mewn gofal ac o fewn cymunedau Roma. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad oes gan y grwpiau bregus hyn y dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen i wneud cais i fodloni meini prawf cofrestru EUSS (Greater Manchester Immigration Aid Unit 2019; Stalford 2020a; Stalford 2020b).

Iaith a diffyg cynefindra â system addysg y DU oedd yn achosi'r rhwystr mwyaf mewn addysg i blant dinasyddion yr UE. Canfu Manzoni (2019) fod ysgolion cynradd ac uwchradd wedi profi heriau penodol lle nad oes gan ddisgyblion lawer o Saesneg ond sydd hefyd yn anghyfarwydd ag agweddau addysgu, dysgu a diwylliannol bywyd ysgol. Gwaethygyd hyn pan gyrhaeddodd plant ym mlynnyddoedd olaf addysg orfodol, gyda heriau arbennig yn caffael Saesneg i'r lefel angenrheidiol i basio arholiadau. Canfu Porteous 2017 mewn astudiaeth yn yr Alban, er y gallai fod gan blant sgiliau iaith Saesneg, y gallai rhieni deimlo eu bod wedi ymddieithrio o addysg eu plant oherwydd eu bod yn anghyfarwydd â'r iaith Saesneg a normau diwylliannol. Fodd bynnag, adroddodd Mariña Fernández-Reino (2020) fod gan blant a aned yn y DU neu a ymunodd ag ysgol gynradd cyn 9 oed yn Lloegr gyrhaeddiad cyfartalog tebyg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 o gymharu â myfyrwyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith Ychwanegol.

Roedd addysg oedolion yn cael ei ystyried yn brofiad mwy cadarnhaol, gyda dinasyddion yr UE yn gallu caffael sgiliau newydd a gwella eu hiaith Saesneg ac yn cael ei weld fel ffordd o sicrhau gwell cyfleoedd cyflogaeth (Porteous 2017). Fodd bynnag, canfu astudiaeth o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n graddio fod myfyrwyr yr UE yn sylweddol fwy tebygol na myfyrwyr nad ydynt o'r UE o gynllunio ar gyfer gadael y DU ar ôl graddio yn syth ar ôl cyhoeddiad y refferendwm (Falkingham et al. 2021).

3.4 Cyflogaeth

Nodwyd 24 o gyhoeddiadau yn ymwneud â dinasyddion yr UE a chyflogaeth (Luthra 2021; Markova 2021; Rodriguez-Arrastia 2021; Rosso 2021; Aragón 2020; Genova 2020; Klimavičiūtė 2020; Martynowska 2020; Thomas 2020; Taylor 2020; Přívara 2019; Koikkalainen 2019; Lulle 2019; Runge 2019; Lulle 2018; y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2018; Sirkeci et al. 2018; Prifysgol Glasgow/Prifysgol Abertawe 2017; KPMG 2017; Pwc/London First 2017; Rolfe 2017; y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2014; Okólski 2014; Parutis 2011), roedd un yn bapur briffio (Runge 2019), saith yn adroddiadau (Thomas 2020; Taylor 2020; y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2018; Prifysgol Glasgow/Prifysgol Abertawe

2017; KPMG 2017; Pwc/London First 2017; y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2014), ac un ar bymtheg yn erthyglau cyfnodolion academaidd (Luthra 2021; Markova 2021; Rodriguez-Arrastia 2021; Rosso 2021; Aragón 2020; Genova 2020; Klimavičiūtė 2020; Martynowska 2020; Přívara 2019; Koikkalainen 2019; Lulle 2019; Lulle 2018; Sirkeci et al. 2018; Rolfe 2017; Okólski 2014; Parutis 2011). Roedd tri chyhoeddiad cyn refferendwm yr UE (y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2014; Okólski 2014; Parutis 2011), deg cyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE hyd at Chwefror 2019 (Přívara 2019; Koikkalainen 2019; Lulle 2019; Lulle 2018; y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2018; Sirkeci et al. 2018; Prifysgol Glasgow/Prifysgol Abertawe 2017; KPMG 2017; Pwc/London First 2017; Rolfe 2017;), ac roedd 11 cyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE o Fawrth 2019 pan oedd yr EUSS wedi ei agor yn llawn (Luthra 2021; Markova 2021; Rodriguez-Arrastia 2021; Rosso 2021; Aragón 2020; Genova 2020; Klimavičiūtė 2020; Martynowska 2020; Thomas 2020; Taylor 2020; Runge 2019).

Roedd cyfraniad dinasyddion yr UE at broblemau economaidd yn amlwg iawn mewn adroddiadau yn y cyfryngau yn arwain at refferendwm yr UE (Walter 2019; Benedi 2019), ond mae dystiolaeth yn awgrymu i'r gwrthwyneb gyda dinasyddion yr UE yn cyfrannu at economi'r DU mewn galwedigaethau medrus a di-grefft (y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2014; Pwc/London First 2017; Rolfe 2017; y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2018; Runge 2019). At hynny, mae'r dystiolaeth yn datgelu bod llawer o ddinasyddion yr UE yn orgymwys ar gyfer eu cyflogaeth, yn enwedig y rheini mewn gwaith di-grefft (Okólski 2014; Sirkeci et al. 2018; Prifysgol Glasgow, Prifysgol Abertawe 2017; Přívara 2019). Mae cyflogaeth dinasyddion yr UE yn y farchnad lafur yn amrywiol o ran y sector cyflogaeth, statws economaidd-gymdeithasol, a hyd yr amser yn y DU, gyda llawer o'r dystiolaeth yn nodi bod y rheini o 15 gwlad yr UE yn fwy tebygol o fod mewn galwedigaethau medrus na'r rhai ar ôl ehangu 2004 (Luthra 2021; Rosso 2021; Koikkalainen 2019; Přívara 2019; Lulle 2018; Lulle 2019; Thomas 2020). Canfu dadansoddiad Taylor (2020) na fyddai hyd at 160,000 o ymfudwyr o'r UE sy'n byw ac yn gweithio yn y DU ar hyn o bryd yn gymwys i symud i'r DU o dan y system fewnfudo newydd ar sail pwyntiau. Gyda'r swyddi hyn wedi'u crynhoi'n bennaf yn y sectorau gofal cymdeithasol, lletygarwch, manwerthu a gweithgynhyrchu, gallai'r DU weld newidiadau a heriau sylweddol yn y farchnad lafur.

Roedd mwyafrif y cyhoeddiadau a adolygwyd yn canolbwyntio ar oblygiadau ymadawiad y DU â'r UE ar ddinasyddion yr UE a gyflogir yn y DU (Boswell 2021; Luthra 2021; Markova 2021; Rodriguez-Arrastia 2021; Aragón 2020; Genova 2020; Klimavičiūtė 2020; Martynowska 2020; Thomas 2020; Taylor 2020; Koikkalainen 2019; Lulle 2019; Lulle 2018; Prifysgol Glasgow/Prifysgol Abertawe 2017; KPMG 2017; Rolfe 2017; y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo 2014; Okólski 2014; Parutis 2011). Thema drawsbynciol oedd yr ansicrwydd yr oedd y refferendwm ac ymadawiad y DU â'r UE wedi'i achosi. Roedd rhywfaint o dystiolaeth

i awgrymu y gallai dinasyddion iau a gwell cymwysedig yr UE a'r rhai sydd wedi symud i'r DU yn y blynyddoedd diwethaf adael y DU (KPMG 2017; Lulle 2018; Lulle 2019, Koikkalainen 2019; Genova 2020), fodd bynnag, mae mwyafrif y dystiolaeth yn awgrymu, er bod canlyniad refferendwm yr UE wedi dod yn sioc ac wedi creu ansicrwydd, bwriad dinasyddion yr UE oedd parhau i fyw yn y DU, o leiaf yn y tymor byr i ganolig (KMPG 2017; Koikkalainen 2019; Genova 2020; Thomas 2020; Klimavičiūtė 2020; Aragón 2020; Boswell 2021; Markova 2021).

3.5 Budd-daliadau a Lles

Nodwyd un ar ddeg o gyhoeddiadau'n ymwneud â dinasyddion yr UE a budd-daliadau a lles (Guma 2020; Jancewicz 2020; Burrell 2019; Roman 2019; Runge 2019; Schweyher 2019; Greenfields 2018; Shutes a Walker 2018; Taggart 2017; Sumption 2016; Dustmann 2010), roedd un yn bapur briffio (Runge 2019), roedd dau yn adroddiadau (Taggart 2017; Sumption 2016), ac roedd wyth yn erthyglau cyfnodolion academaidd (Guma 2020; Burrell 2019; Jancewicz 2020; Roman 2019; Schweyher 2019; Greenfields 2018; Shutes a Walker 2018; Dustmann 2010). Roedd dau gyhoeddiad cyn refferendwm yr UE (Sumption 2016; Dustmann 2010), saith cyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE hyd at Chwefror 2019 (Burrell 2019; Roman 2019; Runge 2019; Schweyher 2019; Greenfields 2018; Shutes a Walker 2018; Taggart 2017), a dau gyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE 2019 Mawrth pan agorwyd yr EUSS yn llawn (Guma 2020; Jancewicz 2020).

Roedd mwyafrif y dystiolaeth yn canolbwyntio ar brofiad dinasyddion yr UE o gael mynediad at fudd-daliadau lles (Guma 2020; Jancewicz 2020; Burrell 2019; Roman 2019; Schweyher 2019; Greenfields 2018; Taggart 2017). Cafodd llywio system budd-daliadau lles or-gymhleth ei lesteirio ymhellach gan rwystrau ieithyddol a diwylliannol, a waethygydd ymhellach gan ganfyddiadau o system a oedd yn stigmatiddio ac yn gwahaniaethu yn erbyn dinasyddion Dwyrain Ewrop. Eto i gyd, dangosodd tystiolaeth gan Dustmann 2010, Sumption 2016 a Roman 2019 fod dinasyddion yr UE yn llai tebygol na'r rhai a aned yn y DU i hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth neu gredydau treth (Dustmann 2010), gyda mudwyr UE2 yn hawlio budd-daliadau yn ddim ond 74% o'r dinasyddion UE8 (Roman 2019). Roedd dinasyddion yr UE yn fwy tebygol o hawlio budd-daliadau mewn-gwaith na budd-daliadau diweithdra na'r rhai a aned yn y DU (Sumption 2016), ac roedd gan ddinasyddion yr UE8 a'r UE2 debygolrwydd cyflogaeth tebyg. Canolbwyntiodd Shutes a Walker (2018) ar y rhwystrau ychwanegol a wynebwr gan fenywod a oedd yn fwy tebygol o fod mewn gwaith dros dro â chyflog isel, gan gynnwys gwaith gofal â thâl, a gwaith gydag oriau mwy cyfyngedig, a oedd yn eu hatal rhag hawlio statws gweithiwr ac effeithio ar eu hawl i breswyllo ac i fudd-daliadau cymdeithasol.

3.6 Profiad Dinasyddion yr UE o Fyw yn y DU

Nodwyd un ar bymtheg o gyhoeddiadau yn ymwneud â phrofiad dinasyddion yr UE o fyw yn y DU

(Boswell 2021; Lahuerta Benedi ac Iusmen 2021; Blachnicka-Ciacek et al. 2021; Botterill 2020; Bueltmann 2020; Citizens Rights Project 2020; Sergona 2020; Sumption 2020a; Sumption 2020b; Benedi 2019; Ranta a Nancheva et al. 2019; Rzepnikowska 2019; Sumption 2018; Feniks 2017; Ryan 2017; Sumption 2017), roedd 10 yn adroddiadau (Boswell 2021; Bueltmann 2020; Citizens Rights Project 2020; Sergona 2020; Sumption 2020a; Sumption 2020b; Benedi 2019; Sumption 2018; Feniks 2017; Sumption 2017), a chwech yn erthyglau cyfnodolion academiaidd (Lahuerta Benedi ac Iusmen 2021; Blachnicka-Ciacek et al. 2021; Botterill 2020; Rzepnikowska 2019; Ranta a Nancheva et al. 2019; Ryan 2017). Roedd chwe chyhoeddiad ar ôl refferendwm yr UE hyd at Chwefror 2019 (Ranta a Nancheva et al. 2019; Rzepnikowska 2019; Sumption 2018; Feniks 2017; Ryan 2017; Sumption 2017), a deg cyhoeddiad ar ôl refferendwm UE o Fawrth 2019 pan oedd yr EUSS wedi agor yn llawn (Boswell 2021; Lahuerta Benedi ac Iusmen 2021; Blachnicka-Ciacek et al. 2021; Botterill 2020; Bueltmann 2020; Citizens Rights Project 2020; Sergona 2020; Sumption 2020a; Sumption 2020b; Benedi 2019).

Roedd y cyhoeddiadau a adolygwyd yn canolbwyntio ar ddau brif faes, sef profiad dinasyddion yr UE o fyw yn y DU ar ôl refferendwm yr UE (Lahuerta Benedi ac Iusmen 2021; Blachnicka-Ciacek et al. 2021; Ranta a Nancheva et al. 2019; Feniks 2017; Ryan 2017; Benedi 2019; Rzepnikowska 2019; Botterill 2020; Sergona 2020) a'r broses o wneud cais i Gynllun Statws Preswlydd Sefydlog yr UE (Sumption 2017; Sumption 2018; Bueltmann 2020; Sumption 2020a; Sumption 2020b; Citizens Rights Project 2020; Boswell 2021).

Roedd saith o'r naw cyhoeddiad yn ymwneud â phrofiadau yn canolbwyntio ar wladolion Pwylaidd (Feniks 2017; Ryan 2017; Benedi 2019; Rzepnikowska 2019; Botterill 2020; Lahuerta Benedi ac Iusmen 2021; Blachnicka-Ciacek et al. 2021). Er bod refferendwm yr UE wedi gwneud i'r grŵp hwn o ddinasyddion yr UE deimlo'n fwy ansicr am y dyfodol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod penderfyniadau i wneud cais am statws sefydlog yn gymhleth. Mae Sergona (2020) a Botterill (2020) ill dau yn amlygu ystod o ystyriaethau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, gan gynnwys ffioedd ymgeisio, cyfyngiadau cymhwysedd, a'r hawl i genedligrwydd deul. Nododd Sergona (2020) hefyd wahaniaethau mewn agweddau tuag at frodori yn amrywio'n sylweddol ymhlith gwladolion yr UE, gyda gwladolion yr UE mwy cefnog ac addysgedig a dinasyddion UE14 yn dangos mwy o wrthwynebiad i wneud cais i ddod yn Brydeinig, ar sail foesol a gwleidyddol. Canfu Feniks (2017) a Botterill 2020 fod ymatebwyr yn poeni am ganlyniadau ymadawiad y DU â'r UE, ac eto roedd y mwyafrif

yn hyderus ynghylch eu hawl i aros ac ymdeimlad o ddiogelwch yn y DU, gan arwain Feniks (2017) i'r casgliad fod eu pryderon yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â'u cred na fyddai'r llywodraeth yn gweithio er eu lles gorau a diffyg unrhyw bŵer i wneud penderfyniadau. Adroddodd Benedi (2019), Rzepnikowska (2019), Botterill (2020), a Lahuerta Benedi ac lusmen 2021 ar brofiad gwladolion Pwylaidd o hiliaeth a senoffobia, er eu bod wedi'u profi cyn Refferendwm yr UE, gallai'r canfyddiad o gynnydd mewn gweithgarwch o'r fath gyfrannu at ansicrwydd a phryder gwladolion Pwylaidd (ac eraill) yr UE am y dyfodol. Mae Ryan (2017) wrth adrodd ar wladolion Pwylaidd a Sergona (2020) sy'n adrodd ar grŵp eang o deuluoedd yr UE sy'n byw yn y DU ill dau yn amlygu bod penderfyniadau ynghylch aros yn y DU ar ôl ymadawiad y DU â'r UE yn seiliedig ar amrywiaeth o amgylchiadau personol a digwyddiadau bywyd.

Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses ymgeisio am EUSS yn nodi cynllun cymhleth i ddechrau, sydd wedi'i symleiddio i ryw raddau (Sumption 2017), ond sy'n dal i fod yn rhwystr rhag cyflawni statws sefydlog i lawer o wladolion yr UE sy'n byw yn y DU (Sumption 2018; Sumption 2020b; Citizens Rights Project 2020; Boswell 2021).

Canfu Sumption (2020a) fod y data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer deall yr EUSS yn gyfyngedig oherwydd diffyg gwybodaeth am nifer dinasyddion yr UE sy'n gymwys i wneud cais. Mae'r diffyg gwybodaeth hwn o bosibl yn arwain at, ac yn gwaethygu'r diffyg ceisiadau gan grwpiau penodol (Sumption 2018; Sumption 2020b; Boswell 2021) ac yn arwain at anghydraddoldebau yn y rhai sy'n ceisio gwneud cais am statws preswlydd cyn-sefydlog neu statws preswlydd sefydlog. Mae'r grwpiau penodol hyn yn cynnwys plant (yn enwedig plant o fewn y system ofal), preswylwyr hirdymor iawn, pobl sy'n credu eu bod yn anghymwys, a grwpiau agored i niwed fel dioddefwyr cam-drin domestig, dioddefwyr camfanteisio, pobl sy'n byw mewn tlodi neu heb dai sefydlog (Sumption 2018; Sumption 2020b). Mewn cyferbyniad, canfu'r Citizens Rights Project (2020) fod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr proses ymgeisio ar-lein EUSS yn ei chael yn ymarferol ac yn hygyrch o ran yr iaith a ddefnyddir, gan bwysleisio bod y rhai nad ydynt yn wynebu bregusrwydd neu ag achos cymhleth yn gweld y broses ymgeisio yn syml. Fodd bynnag, er i Buelmann (2020) ganfod bod ceisiadau ymhlith gwladolion yr UE yn eithaf uchel (72%), roedd ymdeimlad uchel o ansicrwydd a phryder ymhlith ymatebwyr o ran teimlo'n groesawgar ac integredig yn y DU. Mae'n bosibl y bydd hyd yn oed grwpiau nad ydynt yn cael eu hystyried yn agored i niwed yn cael problemau wrth wneud cais fel y dangosir gan Boswell (2021) a arolygodd weithwyr gofal AEE+. Canfu Boswell (2021) eu bod yn gyfyngedig yn eu hymwybyddiaeth, dealltwriaeth a phrofiad o'r EUSS, er enghraifft, heb fod yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt wneud cais i'r EUSS, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a heb wybod ble i geisio cymorth a chefnogaeth gyda'r EUSS.

4. Trafodaeth

Mae'r adolygiad hwn wedi ceisio rhoi trosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â phrofiad gwladolion yr UE yn y DU cyn ac ar ôl refferendwm yr UE yn 2016, gan ganolbwyntio'n benodol ar iechyd, cyflogaeth, addysg, budd-daliadau a lles, a phrofiadau o'r cynllun setliad yr UE.

Roedd yr adolygiad hefyd yn canolbwyntio ar lenyddiaeth yn ymwneud yn benodol â Chymru, a oedd yn ymwneud yn bennaf â'r farchnad lafur a phrofiadau dinasyddion yr UE ar ôl refferendwm yr UE. Mae'r dystiolaeth sy'n ymwneud â Chymru yn adlewyrchu profiad dinasyddion yr UE mewn rhanbarthau eraill ledled y DU; roedd y mwyafrif yn orgymwys ar gyfer y galwedigaethau di-grefft y cawsant eu cyflogi ynddynt, ac roedd llawer yn teimlo'n ansicr ac anniogel ynghylch eu dyfodol yn dilyn refferendwm yr UE. Er bod mudo dinasyddion yr UE i Gymru yn llai na'r rhan fwyaf o ardaloedd eraill yn y DU, mae tystiolaeth i awgrymu y gallai rhai gwasanaethau cyhoeddus a sectorau economaidd fod yn agored i niwed o ganlyniad i gyfyngiadau ar symud rhydd (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru 2016; Wadsworth 2018; Hepburn a Bell 2020).

Fodd bynnag, nid yw holl ddinasyddion yr UE yn gyfartal yn eu profiad cyflogaeth yn y DU. Canfu dadansoddiad hydredol o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a'r Arolwg o'r Llafurlu fod ymfudwyr EUA8 yn gyson orgymwys ar gyfer y swyddi yr oeddent wedi'u cael a'u bod wedi ennill y premiwm cyflog isaf ar eu haddysg dros ben o gymharu â'r mwyafrif gwyn Prydeinig, pobl o Orllewin Ewrop a mudwyr a grwpiau lleiafrifoedd eraill yn y DU (Clark et al. 2014; Johnston et al. 2015; Sirkeci et al. 2018). Eglurhad posibl am gosb ddwbl ymfudwyr o Ddwyrain Ewrop yw eu gorgrynodiad yn y farchnad lafur eilaidd lle mae gwahaniaethu gan gyflogwyr, camfanteisio a gwobrau is yn arferion cyffredin. Yn groes i hyn, mae mudwyr o Orllewin Ewrop yn mwynhau safle llawer gwell yn y farchnad lafur gan eu bod yn gallu negodi mynediad i'w sector cynradd yn llwyddiannus (Johnston et al. 2015). Eto i gyd, dangoswyd bod ymfudwyr o'r AEE yn gwneud cyfraniad cyllidol cadarnhaol i economi Prydain, hyd yn oed yn ystod cyfnodau pan oedd diffygion cyllidebol yn y DU (Dustmann a Frattini 2013) ac ymfudwyr EUA8 sydd leiaf tebygol o hawlio budd-daliadau, oherwydd eu bod yn aml yn aros yn y DU ar sail tymor byr gyda phatrymau mudo afreolaidd, sy'n negyddu cyfranogiad yn system fudd-daliadau'r DU (Drinkwater a Robinson 2013).

Thema drawsbynciol drwy gydol yr adolygiad hwn oedd yr ansicrwydd a'r anniogelwch a ddaeth yn sgil refferendwm yr UE i lawer o ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU. Roedd hyn yn amlwg mewn perthynas ag iechyd meddwl, addysg, cyflogaeth a phrofiad dinasyddion yr UE o fyw yn y DU. Fodd bynnag, er i sioc gychwynol canlyniad

refferendwm yr UE achosi adweithiau emosiynol cryf cychwynnol o anghrediniaeth, siom, dicter, dryswch, tristwch, gorbryder, galar, ofn a phanig, dros amser mae dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU wedi rhesymoli'r canlyniad (Gawlewicz a Sotkasiira 2020; Kilkey a Ryan 2020; Klimavičiūtė et al. 2020; McCarthy 2018; Trąbka a Pustulka 2020). Canfu astudiaeth Gawlewicz a Sotkasiira (2020) o ddinasyddion Ffindir a Phwylaidd sy'n byw yn yr Alban, wrth i amser fynd yn ei flaen, eu bod yn dangos gwytnwch, derbyniad ac angen i "symud ymlaen" â'r sefyllfa, er bod ymdeimlad parhaus o ansicrwydd. Chwaraeodd amser ran hefyd wrth negodi ansicrwydd ynghylch statws cyfreithiol yn y dyfodol a'r hawl i aros yn y DU. Roedd cyfranogwyr a oedd wedi bod yn y DU am gyfnod hwy o amser ac yn ystyried eu hunain wedi setlo yn teimlo'n fwy diogel na'r rhai a oedd wedi cyrraedd y DU yn fwy diweddar (1 i 5 mlynedd). Mae Kilkey a Ryan (2020) yn adleisio'r canfyddiadau hyn yn eu hymchwil gyda mudwyr o Wlad Pwyl yn bennaf ac yn dadlau y dylid canolbwyntio ar ddata hydredol a mabwysiadu lens cwrs bywyd fel ymfudo cychwynnol tymor byr, dros dro, o bosibl yn cael ei ymestyn yn raddol wrth i berthnasoedd ddatblygu ac ymfudwyr ddechrau gwreiddio mewn cyrchfannau. Mae angen deall ymatebion ymfudwyr i ymadawiad y DU o'r UE yn erbyn cefndir eu profiadau gydol oes, sy'n cynnwys dau ddigwyddiad cythryblus rhyng-gysylltiedig blaenorol — ehangiad yr UE yn 2004 a dirwasgiad economaidd 2008–09 pan ragwelwyd y byddai mudwyr o'r UE yn symud, ond ni wnaethant felly mewn niferoedd sylweddol. Mae Jancewicz et al. (2020) yn cefnogi casgliadau Kilkey a Ryan (2020) bod y refferendwm yn ddigwyddiad cythryblus, a'i fod yn ddigon cythryblus i ysgogi ymfudwyr i ailfeddwl eu hopsiynau ac o bosibl sicrhau eu statws ond nid o reidrwydd i adael. Fel y nodwyd gan Drinkwater a Garapich 2015, mae strategaethau mudo yn hyblyg ac yn hynod addasol i amodau strwythurol ac unigol cyfnewidiol y mae ymfudwyr yn gyfarwydd iawn â nhw.

Un pwynt allweddol i'w nodi yw nad yw dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU yn grŵp homogenaidd. Mae ffactorau sy'n ymwneud â gwlad wreiddiol, pryd daethant i fyw yn y DU, cyflogaeth, addysg, oedran, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol yn arwain at brofiadau amrywiol a disgwyliaid ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, mae'r dystiolaeth yma'n dangos anghydraddoldebau rhwng yr UE14 a gwledydd ar ôl ehangu o ran cyfleoedd cyflogaeth a phrofiad o wneud cais i'r EUSS. Parhaodd profiad pobl o Ddwyrain Ewrop o beidio â pherthyn a diffyg derbyniad yn y DU cyn refferendwm yr UE ar ôl y refferendwm (Lulle, Moroşanu, a King 2018; Rzepnikowska 2019), tra bod Gorllewin Ewrop yn gweld ei fod yn ganlyniad newydd ac annisgwyl (Brahic a Lallement 2020; Giralt 2020; Moreh 2018).

Nid yw'r adolygiad hwn yn hollgynhwysfawr ac nid yw wedi rhoi ystyriaeth fanwl i grwpiau agored i niwed fel yr henoed, pobl anabl, cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, cymunedau LHDTTC+, pobl â gwahanol grefyddau, pobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, ac unigolion sy'n profi camfanteisio neu gam-drin. At hynny, nid yw wedi

ystyried mudo a rhyw a gwlad wreiddiol. Canfu dadansoddiad gan NPC (2018) y gallai rhai menywod gael anawsterau ychwanegol wrth wneud cais am statws sefydlog oherwydd eu bod yn ddiodefswyr cam-drin domestig, yn cael eu hystyried yn “economaidd anweithgar” ac felly’n methu â darparu cofnodion gan CThEM neu’r DWP, a’u bod yn fwy tebygol o fod wedi eu cyflogi mewn sectorau lle mae gwaith yn anffurfiol a gall arferion gwael olygu nad oes llawer o drywydd papur. Fodd bynnag, mae’r adolygiad hwn yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i sut mae gwladolion yr UE sy’n byw yn y DU yn llywio eu bywydau, ac effaith refferendwm yr UE a’r EUSS dilynol.

5. Casgliad

Wrth inni symud i mewn i’r oes wedi’r Cytundeb Ymadael a’r ôl Covid-19, rydym yn dechrau cyfnod o ansicrwydd ynghylch effaith tymor canolig i hirdymor ymadawiad y DU â’r UE. Nid yw holl ddinasyddion yr UE wedi gallu gwneud cais am statws cyn-sefydlog neu sefydlog oherwydd eu bod yn agored i niwed (e.e. plant yn gadael gofal, diodefswyr cam-drin domestig, y digartref) neu o ganlyniad i Covid-19 nid ydynt wedi gallu cael y gwaith papur angenrheidiol. At hynny, roedd effaith gyfunol ymadawiad y DU â’r UE a Covid-19 yn golygu bod llawer o ddinasyddion yr UE wedi penderfynu gadael y DU ac efallai na fyddant yn dychwelyd. Bellach mae’n rhaid i ddinasyddion yr UE nad oeddent yn preswyllo yn y DU o’r blaen fynd drwy’r system sy’n seiliedig ar bwyntiau mewnfudo, a allai gael effaith ar sectorau cyflogaeth a oedd yn arfer dibynnu ar symudiad rhydd dinasyddion yr UE. Efallai y bydd y sector addysg uwch hefyd yn gweld effaith debyg. Gall y ffactorau hyn arwain at ddiffyg gweithwyr medrus a di-grefft yn y DU. Wrth symud ymlaen, mae angen ymchwil pellach i fonitro ac asesu costau gadael yr UE ar gyfer y DU mewn cyd-destun cymdeithasol ac economaidd.

Diolchiadau

Hoffem ddiolch i Ellie Brodie, John Davies, Steven Macey, Kayleigh Sweet am eu sylwadau gwerthfawr a'u diwygiadau i'r adolygiad llenyddiaeth hwn.

Cyfeiriadau

Alma Economics; 2020. [EU citizens living in Wales – Community integration, equality of opportunity and equality of outcome](#) Cardiff: Welsh Government, GSR report number 77/2020.

Aragón Rebeca R., Bretones Francisco D. [Uncertainties Generated during the Brexit Process among Highly Qualified Spanish Workers Incertidumbres generadas durante el proceso del Brexit entre los trabajadores españoles altamente cualificados. \(academia.edu\)](#) *Revista Española de Investigaciones Sociológicas*. 2020; 172, pp.3-20.

Bevan Foundation [Life after free movement: Making future immigration policy work for Wales \(Bevan Foundation\)](#) January 2019.

Blachnicka-Ciacek, D., Trąbka, A., Budginaite-Mackine, I., Parutis, V. and Pustulka, P, [Do I deserve to belong? Migrants' perspectives on the debate of deservingness and belonging. \(academia.edu\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2021.

Boswell C, & Patel C. [When the clapping stops: EU Care Workers after Brexit \(jcwi.org.uk\)](#) 2021.

Botterill, K. Bogacki M, Burrell K. Hörschelmann, K. [Applying for Settled Status: Ambivalent and reluctant compliance of EU citizens in post-Brexit Scotland \(eupublishing.com\)](#). 2020; 29 (3). 370 - 385.

Brahic B. & Lallement M. [From 'Expats' to 'Migrants': strategies of resilience among French movers in post-Brexit Manchester. \(tandfonline.com\)](#) *Migration and Development*, 2020 9:1, 8-24.

Bueltmann T. [Experiences and Impact of the EU Settlement Scheme: Report on the 3million Settled Status Survey. \(tandfonline.com\)](#) 2020.

Burrell K, Schweyher M. [Conditional citizens and hostile environments: Polish migrants in pre-Brexit Britain. \(sciencedirect.com\)](#) *Geoforum* 2019; 106, pp.193-201.

Citizens Rights Project [EU Settlement Scheme: Citizens Report \(citizensrightsproject.org\)](#) 2020.

Clark, K., Drinkwater, S. and Robinson, C. Labor mobility as an adjustment in the UK during the Great Recession in M. Kahanec and K. Zimmermann (eds) *Labor Migration, EU Enlargement, and the Great Recession*, 2016, Springer, Heidelberg.

Drinkwater, S., and Robinson, C. [Welfare participation by immigrants in the UK. \(semanticscholar.org\)](#). *International Journal of Manpower*, 2013; 34(2), 100-112.

Drinkwater, S. and Garapich, M. P. [Migration strategies of Polish migrants: Do they have any at all? \(semanticscholar.org\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2015: 41(12), 1909-1931.

[Dustmann C, Frattini T. Halls C. Assessing the Fiscal Costs and Benefits of A8 Migration to the UK. Fiscal Studies. \(ucl.ac.uk\)](#) March 2010; 31(1), p.1-41.

Dustmann, C., and Frattini, T. [The fiscal effects of immigration to the UK. \(wiley.com\)](#) *Economic Journal*, 2014; 124(580), F593-F643.

Falkingham J, Giulietti C, Wahba J, Wang C. [The impact of Brexit on international students' return intentions \(wiley.com\)](#) *The Manchester School* 2021;89(2), pp.139-171.

Feniks: Counselling, Personal Development and Support Services, Ltd. [Report on EU nationals' reaction and long-term consequences of the EU Referendum \(Feniks: Counselling, Personal Development and Support Services, Ltd.\)](#). 2017.

Fernández-Reino M. *Children of migrants in the UK*. Briefing Report 2020 [Children of migrants in the UK - Migration Observatory \(ox.ac.uk\)](#).

Gawlewicz, A. Sotkasiira T. [Revisiting geographies of temporalities: The significance of time in migrant responses to Brexit. \(wiley.com\)](#) *Popul Space Place*. 2020; 26:e2275.

Genova E & Zontini E. [Liminal Lives: Navigating In-Betweenness in the Case of Bulgarian and Italian Migrants in Brexiting Britain. \(ceemr.uw.edu.pl\)](#) *Central and Eastern European Migration Review*. 2020 9(1), pp.47-64.

Giralt, R. M. [The Emotional Geographies of Migration and Brexit: Tales of Unbelonging. \(whiterose.ac.uk\)](#) *Central and Eastern European Migration Review*, 2020; 9(1), 29-45.

Greater Manchester Immigration Aid Unit. [Not so straightforward: experiences of children in care and care leavers in Greater Manchester affected by Brexit immigration changes. \(GMIAU\)](#) 2019.

Greenfields M. & Dagilyté E. [‘I Would Never Have Come If We’d Know It Might Be Like This’ On the \(Un\)Intended Consequences of Welfare Governance of EU Roma Migrants in Britain. \(Academia.edu\)](#) *Intersections – East European Journal of Society and Politics* . 2018; 4(3) pp.81-105.

Guma T, Jones RD. [“Where are we going to go now?” European Union migrants’ experiences of hostility, anxiety, and \(non-\)belonging during Brexit. \(wiley.com\)](#) *Popul Space Place*. 2019;25:e2198.

Guma T. [Turning citizens into immigrants: state practices of welfare ‘cancellations’ and document retention among EU nationals living in Glasgow \(tandfonline.com\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2020; 46:13, 2647-2663.

Hepburn E. & Bell D. [Post-Brexit Migration and Wales Wales Centre for Public Policy \(wcpp.org.uk\)](#) November 2020.

Home Office (gov.uk) [Official Statistics EU Settlement Scheme quarterly statistics. \(www.gov.uk\)](#) March 2021.

Jancewicz B., Kloc-Nowak W., Pszczółkowska D. [Push, Pull and Brexit: Polish Migrants’ Perceptions of Factors Discouraging them from Staying in the UK. \(researchgate.net\)](#) *Central and Eastern European Migration Review*. 2020; 9(1): 101-123.

Johnston, R., Khattab, N. and Manley, D. [East versus West? Over-qualification and Earnings among the UK’s European Migrants. \(semanticsscholar.org\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2015; 41(2), 196-218.

Kelly U. & McNicoll I. Viewforth Consulting Ltd [The Economic Impact of International Students in Wales \(uniswales.ac.uk\)](#) November 2017.

Kilkey, M. and Ryan, L. [Unsettling Events: Understanding Migrants’ Responses to Geopolitical Transformative Episodes through a Life-Course Lens. \(sagepub.com\)](#) *International Migration Review*, 2020; 55(1), 227-253.

Klimavičiūtė L, Parutis V, Jonavičienė D, et al. [The Impact of Brexit on Young Poles and Lithuanians in the UK: Reinforced Temporariness of Migration Decisions. \(uw.edu.pl\)](#) *Central and Eastern European Migration Review* 2020 9(1), pp.127-142.

Knight, J., Lever, J. and Thompson, A. [The Labour Market Mobility of Polish Migrants: A Comparative Study of Three Regions in South Wales, UK. \(semanticsscholar.org\)](#) *Central and Eastern European Migration Review*, 2021; 3(2), 61-78.

Koikkalainen S. [Nordic Ties and British Lives? Migrant Capital and the Case of Nordic Migrants Living in London. \(semanticsscholar.org\)](#) *Social Inclusion* 2019; 7(4) pp. 171–180.

KPMG [The Brexit effect on EU nationals: a survey on what European workers will do now. \(assets.kpmg\)](#) 2017.

Lahueta SB. & Iusmen I. [The impact of Brexit on EU Nationals' vulnerability: the case of Polish nationals. \(lse.ac.uk\)](#) University of Southampton. 2019.

Lahueta Benedi, S. and Iusmen, I. [EU nationals' vulnerability in the context of Brexit: The case of Polish nationals \(tandfonline.com\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2021; 47(1), 284-306.

Lemos, S. [Labour Market Effects of Eastern European Migration in Wales. \(Wiley Online Library\)](#) *The Manchester School*, 2014. Vol. 82, Issue 5, pp. 524-548.

Lulle, A, Moroşanu, L, King, R. [And then came Brexit: Experiences and future plans of young EU migrants in the London region. \(wiley.com\)](#) *Population, Space and Place*. 2018; 24(1): 1–11.

Lulle, A., King, R., Dvorakova, V., Szkudlarek, A. [Between disruptions and connections: "New" European Union migrants in the United Kingdom before and after the Brexit. \(wiley.com\)](#) *Population, Space and Place*, 2019; 25(1), 2200.

Luthra RR. [Mitigating the hostile environment: the role of the workplace in EU migrant experience of Brexit. \(tandfonline.com\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2021; 47:1, 190-207.

Maciagowska, K. E., & Hanley, T. [What is known about mental health needs of the post-European Union accession Polish immigrants in the UK? A systematic review. \(tandfonline.com\)](#) *International Journal of Culture and Mental Health*, 2018; 11(2), 220–235.

Manzoni C, & Rolfe H. [How schools are integrating new migrant pupils and their families. \(niesr.ac.uk\)](#) National Institute of Economic and Social Research 2019.

Markova E, King R. [Leave or remain? The post-Brexit \(im\)mobility intentions of Bulgarians in the United Kingdom. \(sagepub.com\)](#) *European Urban and Regional Studies*. 2021;28(1):58-65.

Martynowska K, Korulczyk T, Mamcarz PJ. [Perceived stress and well-being of Polish migrants in the UK after Brexit vote \(researchgate.net\)](#) PLoS One. 2020; Jul 23;15(7):e0236168.

Migration Advisory Committee [EEA migration in the UK: Final report. \(publishing.service.gov.uk\)](#) 2018.

Migration Advisory Committee. [Migrants in low skilled work: The growth of EU and non-EU labour in low-skilled jobs and its impact on the UK \(publishing.service.gov.uk\)](#) 2014.

Moreh, C., McGhee, D. and Vlachantoni, A. [The Return of Citizenship? An Empirical Assessment of Legal Integration in Times of Radical Sociolegal Transformation \(sagepub.com\)](#) *International Migration Review*, 2020; 54(1), 147-176.

NCP Kail A. [How the EU settlement scheme affects women and girls \(thinknpc.org\)](#) 25 October 2018.

Okólski M. & Salt J. [Polish Emigration to the UK after 2004; Why Did So Many Come? \(ucl.ac.uk\)](#) *Central and Eastern European Migration Review* December 2014, pp. 1–27.

Oxford Economics [The Impact of International and EU students in Wales \(uniswales.ac.uk\)](#) March 2011.

Parutis, V. [“Economic Migrants’ or ‘Middling Transnationals’? East European Migrants’ Experiences of Work in the UK.” \(wiley.com\)](#) *International Migration* 2014;52 (1): 36–55.

Phung, VH., Asghar, Z., Matiti, M. *et al.* [Understanding how Eastern European migrants use and experience UK health services: a systematic scoping review. \(biomedcentral.com\)](#) *BMC Health Serv Res* 2020; 20, 173.

Porteous H. [Migrant Experiences in Aberdeen/shire: SSAMIS 2017 Report Series. \(gla.ac.uk\)](#) 2017.

Porteous H. [Migrants and Healthcare in Aberdeen/shire \(Academia.edu\)](#) 2017.

Porter, J., Lever, J. and Thompson, A. [Social Network Evolution during Long-term Migration: A comparison of three case studies in the South Wales region \(University of South Wales\)](#) *Social Identities: Journal for the Study of Race, Nation and Culture*, 2016; 23(1), 56-70.

PRISMA Checklist 2020 [PRISMA \(prisma-statement.org\)](#).

Privara, A., Rievajová, E., & Yüceşahin, M. M. [Labour Market Disadvantages Faced by Migrant Workers from Czech Republic, Hungary, and Slovakia in Britain. \(tplondon.com\)](#) *Migration Letters*, 2019; 16(4), 585–594.

Public Policy Institute for Wales [Evidence Summary on EU Migration in Wales \(WCPP\)](#) November 2016.

Pwc/London [First Facing Facts: The impact of migrants on London, its workforce and its economy. \(pwc.co.uk\)](#).

Ranta, R. and Nancheva, N. [Unsettled: Brexit and European Union nationals' sense of belonging \(Wiley Online Library\)](#) *Population, Space and Place*, 2019; 25(1).

Rodriguez-Arrastia M, Ropero-Padilla C, Fernández-Sola C, Portillo MC. [Nursing emigration in the United Kingdom: A qualitative exploration of the Spanish nursing community \(nih.gov\)](#) *Nursing Open*. 2021 Mar;8(2):675-687.

Rolfe, H. [It's all about the flex preference flexibility and power in the employment of eu migrants in lowskilled sectors \(cambridge.org\)](#) *Social Policy and Society*, 2017; 16(4), 623-634.

Roman M. [Work and welfare take-up of enlargement migrants in the United Kingdom. \(tandfonline.com\)](#) *Applied Economics Letters* 2019 ;26(5), pp.341 – 344.

Rosso, A. [Eastern European immigrants in the UK. \(Emerald Insight\)](#) *International Journal of Manpower*, 2021.

Runge J. [Briefing: Overview of Evidence on Economic Impacts of EU Immigration. \(niesr.ac.uk\)](#) 2019.

Ryan L. [Differentiated embedding: Polish migrants in London negotiating belonging over time \(tandfonline.com\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*. 2018; 44:2, 233-251.

Rzepnikowska A. [Racism and xenophobia experienced by Polish migrants in the UK before and after Brexit vote \(tandfonline.com\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2019; 45:1, 61-77.

Schweyher M, Odden G, Burrell K. [Abuse or Underuse? Polish Migrants' Narratives of \(Not\) Claiming Social Benefits in the UK in Times of Brexit. \(pan.pl\)](#) *Central and Eastern European Migration Review* 2019; 8(2) pp. 101–122.

Shutes, I. and Walker, S. [Gender and free movement: EU migrant women's access to residence and social rights in the U.K. \(tandfonline.com\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2018; 44(1), 137-153.

Sigona N. & Godin M. [Naturalisation and \(Dis\) integration for EU Families in Brexiting Britain. \(Eurochildren\) 2020.](#)

Sigona N, & Godin M. [EU Families in Scotland after the Brexit Referendum: Fears, Hopes and Belonging. \(wordpress.com\)](#) 2019.

Sime D, Kakela E, Corson S, et al. [Eastern european young people in brexit britain racism anxiety and a precarious future \(strath.ac.uk\)](#) 2017.

Sime D, Moskal M, Tyrrell N. [Going Back, Staying Put, Moving On: Brexit and the Future Imaginaries of Central and Eastern European Young People in Britain \(strath.ac.uk\)](#) *Central and Eastern European Migration Review* 2020; 9(1), pp.85-100.

Sime D. [New Scots? Eastern European young people's feelings of belonging and national identity in Scotland post-Brexit \(researchgate.net\)](#) *Scottish Affairs* 2020; 29(3), pp.336-353.

Sirkeci, I., Acik, N., Saunders, B., and Přivara, A. [Barriers for Highly Qualified A8 Immigrants in the UK Labour Market \(sagepub.com\)](#) *Work, Employment and Society*, 2018; 32(5), 906-924.

Stalford H, & Humphreys D. [EU Roma Children and the EU Settled Status Scheme: Awareness, Access and Eligibility \(liverpool.ac.uk\)](http://liverpool.ac.uk) 2020b (accessed 28.06.21)

Stalford H. & Humphreys D. [EEA Children and British Citizenship: Why it is Important to Focus on Roma Children \(liverpool.ac.uk\)](http://liverpool.ac.uk) 2020a.

Sumption M. & Fernández-Reino M. [Unsettled Status - 2020: Which EU Citizens are at Risk of Failing to Secure their Rights after Brexit? The Migration Observatory \(ox.ac.uk\)](http://ox.ac.uk) Migration Observatory; University of Oxford. 2020b.

Sumption M. & Kone Z. [Unsettled Status? Which EU Citizens are at Risk of Failing to Secure their Rights after Brexit? The Migration Observatory \(ox.ac.uk\)](http://ox.ac.uk) Migration Observatory; University of Oxford 2018.

Sumption M. & Altorjai S. [EU Migration, Welfare Benefits and EU Membership \(ox.ac.uk\)](http://ox.ac.uk) Migration Observatory; University of Oxford. 2016.

Sumption M. [Not Settled Yet? Understanding the EU Settlement Scheme using the Available Data. The Migration Observatory \(ox.ac.uk\)](http://ox.ac.uk) University of Oxford. 2020a.

Sumption M. [The Burden of Proof: How Will the Application Process Work for EU Citizens After Brexit? \(ukandeu.ac.uk\)](http://ukandeu.ac.uk) Migration Observatory; University of Oxford. 2017.

Taggart K. [Experiences of Welfare within Glasgow's Central & East European \(CEE\) Community: Briefing for the Green MSPs based on findings from the SSAMIS research project. \(gla.ac.uk\)](http://gla.ac.uk) 2017 Social Support and Migration in Scotland, University of Glasgow, Swansea University.

Taylor H, Florisson R, & Wilkes M. [Post-Brexit Labour Supply and Workforce Planning: Key questions for policymakers. \(lancaster.ac.uk\)](http://lancaster.ac.uk) 2020.

Teodorowski P. Woods R Czarnecka M. Kennedy C. [Brexit, acculturative stress and mental health among EU citizens in Scotland \(Wiley Online Library\)](http://wileyonlinelibrary.com) *Population, Space and Place*, e2436 2021.

Teodorowski P. Woods R Czarnecka M. Kennedy C. [Racism and xenophobia experienced by Polish migrants in the UK before and after Brexit vote \(tandfonline.com\)](http://tandfonline.com) 2019 Aberdeen: Robert Gordon University

Teodorowski, P., Woods, R. and Kennedy, C. [The Mental Health and Wellbeing of EU Citizens in the UK: A Systematic Review of the Qualitative Literature \(smf.co.uk\)](#) *Border Crossing*. London, UK, 2020 10(1), pp. 43–60.

Thomas J. [Best intentions: EU migrant workers in Fenland \(smf.co.uk\)](#) Social Market Foundation. 2020.

Trąbka A. and Pustulka P. [Bees & butterflies: Polish migrants' social anchoring, mobility and risks post-Brexit \(tandfonline.com\)](#) *Journal of Ethnic and Migration Studies*, 2020; 46(13), 2664-2681.

Tyrrell N, Sime D, Kelly C, McMellon C. [Belonging in Brexit Britain: Central and Eastern European 1.5 generation young people's experiences. \(wiley.com\)](#) *Population, Space and Place* 2019; 25(1), e2205.

University of Glasgow, Swansea University [SSAMIS Report Series - Migrants and Employment in Aberdeen/shire \(Academia.edu\)](#) 2017.

Wadsworth J. [Off EU Go? Brexit, the UK Labour Market and Immigration \(Wiley Online Library\)](#) *Fiscal Studies*, 2018; 39(4), 625-649.

Weishaar, H. B. ["You have to be flexible"—Coping among polish migrant workers in Scotland \(ScienceDirect\)](#) *Health & Place*, 2010; 16(5), 820-827.

Yeo C. [The impact of the UK-EU agreement on citizenship rights for EU families. \(ukandeu.ac.uk\)](#). 2018.

Zontini E, & Però D. [EU Children in Brexit Britain: Re-Negotiating Belonging in Nationalist Times \(Wiley Online Library\)](#) *International Migration* 2020; 58(1), pp.90-104.

Atodiad A Crynodeb o'r Llenyddiaeth a Gynhwyswyd

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
FFOCWS CYMRU								
GSR, Llywodraeth Cymru	2020	Dinasyddion yr UE sy'n Byw yng Nghymru	Adroddiad	Dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru	Archwilio'r cyfleoedd a'r canlyniadau dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru a nodi meysydd i'w gwella integreiddio	Dadansoddiad meintiol o ddangosyddion allweddol i werthuso integreiddio'r boblogaeth a aned yn yr UE-27 sy'n byw yng Nghymru, gan gwmpasu pedwar categori bras: Cyflogaeth, Tai, Iechyd a budd-daliadau, a Sgiliau iaith a hunaniaeth genedlaethol. Ymchwil ansoddol gyda dinasyddion yr UE, swyddogion llywodraeth leol a sefydliadau sy'n darparu cymorth a gwasanaethau i ddinasyddion yr UE	Y rhwystr mwyaf cyffredin i gyfle cyfartal/canlyniadau i ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru yw diffyg gwybodaeth hygyrch am wasanaethau cyhoeddus; mae dinasyddion yr UE, yn enwedig y rhai o wledydd yr UE-8 a'r UE-2, wedi'u crynhoi mewn swyddi y mae ganddynt ormod o gymwysterau ar eu cyfer. Disgrifiodd rhanddeiliaid allweddol nad yw llawer o unigolion o wledydd yr UE-8 a UE-2 yn hyddysg mewn siarad Saesneg, hyd yn oed ar ôl byw yng Nghymru am gyfnod estynedig. Yn aml nid oes gan y grŵp hwn, sy'n anghymesur mewn swyddi sgiliau isel, amser i fynychu cyrsiau Saesneg gan eu bod yn aml yn gweithio oriau hir.	Argymhellion polisi a chasgliadau (1) Helpu dinasyddion yr UE sy'n ymgartrefu yng Nghymru i deimlo bod croeso iddynt. (2) Gwell mynediad at wybodaeth. (3) Mwy o gefnogaeth a rôl fwy gweithredol i sefydliadau sy'n gweithio i wella integreiddio: (4) Mynediad i'r farchnad lafur. (5) Gwella sgiliau iaith.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
						sy'n byw yng Nghymru.		
Hepburn a Bell (WCPP)	2020	Post-Brexit Migration and Wales	Adroddiad	Mewnfudwyr yng Nghymru	Yn dadansoddi effeithiau posibl polisiau mudo ôl-Brexit ar farchnad lafur, poblogaeth a chymdeithas Cymru, ac yn nodi ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau y mae hyn yn eu cyflwyno.	Dadansoddiad ansoddol	<p>Bydd rhoi terfyn ar symud rhydd yn cael effaith sylweddol ar newid yn y boblogaeth yng Nghymru, sydd wedi bod yn fwy dibynnol ar fudo o'r tu allan i'r DU i dyfu ei phoblogaeth oedran gweithio na llawer o rannau o Loegr.</p> <p>Mae tystiolaeth o'r Alban yn awgrymu y gallai'r system fudo ôl-Brexit ei gwneud hi'n anoddach llenwi swyddi gwag mewn sectorau lle mae'r cyflog cyfartalog yn is na £25,600 ac mewn cymunedau gwledig gyda phoblogaethau sy'n heneiddio.</p> <p>Gallai gostyngiad mewn mewnfudo o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) roi mwy o bwysau ar y rhai sydd mewn gwaith i gefnogi pobl o oedran penswn.</p> <p>Mae arbenigwyr yn credu y gallai polisi mudo ôl-Brexit y DU hefyd: a) Gael effaith ar gysylltiadau cymunedol ac integreiddio; b) Rhoi straen ar weinyddiaeth y Swyddfa Gartref o Gynllun Setliad yr UE; c) Dylanwadu ar ganfyddiadau o'r DU fel lle dymunol i fewnfudwyr weithio; ac d) Arwain at</p>	Gallai Llywodraeth Cymru geisio mynd i'r afael â'r materion hyn drwy: a) Geisio cytundeb ar amrywiadau rhanbarthol a sectoraidd ym mholsi mudo'r DU; b) Eiriol dros gytundebau rhwng y DU a'r UE i gynnwys fframweithiau symudedd a chydabod cymwysterau proffesiynol; ac c) Arfer pwerau datganoledig ac offerynnau polisi yn uniongyrchol i hyrwyddo integreiddio, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhyw a diogelu'r cyflenwad llafur mewn cymunedau gwledig.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							gyfyngiadau cilyddol ar hawliau gwladolion y DU i weithio yng ngwledydd yr UE.	
Sefydliad Bevan <u>Testun llawn</u>	2019	Life after free movement: Making future immigration policy work for Wales	Adroddiad	Symposiwm o randdeiliaid o bob rhan o Gymru.	Yn trafod posibiliadau bywyd ar ôl symudiad rhydd a'r opsiynau sydd ar gael i sicrhau bod y system fewnfudo yn y dyfodol yn gweithio i Gymru	Symposiwm o randdeiliaid o bob rhan o Gymru ynghyd ag arbenigwyr polisi mewnfudo blaenllaw i drafod pam mae ar Gymru angen mudo ac a ddylai Cymru geisio amrywiadau rhanbarthol yn y dyfodol polisi mewnfudo ar ôl Brexit.	<p>Mae rhanddeiliaid yn pryderu am y goblygiadau economaidd y gallai cynnal y trothwy enillion isaf o £30,000 ar gyfer fisas Haen 2 leihau nifer y gweithwyr medrus uwch i Gymru, ochr yn ochr â phryderon ynghylch yr hyn y gallai gostyngiad mewn mudo â sgiliau is ei wneud i sectorau penodol yng Nghymru.</p> <p>Pryderon am y diffyg cynlluniau cydlyniant ac integreiddio cymunedol effeithiol yng Nghymru ac am brofiadau bywyd dinasyddion nad ydynt yn dod o'r DU, yn enwedig ynghylch ecsbloetio llafur a gelyniaeth tuag at ymfudwyr.</p> <p>Yn unfrydol yn meddwl y dylai Cymru gael mwy o bwerau dros bolisi mewnfudo gydag achos busnes cryf dros amrywiadau rhanbarthol. Dewisodd rhanddeiliaid amrywiadau rhanbarthol o fewn system fewnfudo'r DU y penderfynir arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.</p>	<p>Mae system fewnfudo'r DU yn mynd i newid. Bydd hyn nid yn unig yn effeithio ar lawer o agweddau ar yr economi a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond hefyd yn pennu rhai o hawliau mwyaf sylfaenol pobl a aned y tu allan i'r DU. Gyda hyn mewn golwg, prin iawn yw'r drafodaeth am hyn yng Nghymru ar hyn o bryd.</p> <p>Mae gan Gymru gyfle i ddylanwadu ar bolisi mewnfudo yn y dyfodol i sicrhau bod y system fewnfudo yn deg, yn dryloyw ac yn gytbwys i bawb.</p>

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
Taulant Guma a Rhys Dafydd Jones	2018	“Where are we going to go now?” European Union migrants' experiences of hostility, anxiety, and non-belonging during Brexit	Erthygl Cyfnodolyn Academaidd	Ymfudwyr yr UE sy'n byw yng Nghymru	Archwilio effaith refferendwm yr UE 2016 a'i ganlyniadau o safbwynt ymfudwyr Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru	Cyfweliadau â 42 o ymfudwyr o'r UE yn byw yng Nghymru rhwng Chwefror 2016 a Hydref 2017 (cyn ac ar ôl y refferendwm). Ymatebwyr sy'n ymwneud â mentrau a sefydliadau amrywiol mewn amrywiaeth o ardaloedd ledled Cymru gan gynnwys dinasoedd mawr, trefi ôl-ddiwydiannol, ac aneddiadau gwledig. Cyfweliadau wedi'u hategu gan ddata o arsylwi cyfranogwyr mewn nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau a fynychwyd gan yr ymfudwyr hyn yn ystod y cyfnod hwn.	Yn amlygu enghreifftiau amrywiol o elyniaeth a thrais a wynebwyd gan gyfweleion yn ystod ac ar ôl ymgyrch y refferendwm, gan ddangos natur hirsefydlog profiadau gelyniaethus. Amlinellir nifer o wahanol brofiadau mudwyr gwahanol, yn ymwneud â'u hethnigrwydd, "hil", dosbarth, statws teuluol, ac ati. Yn amlinellu ymhellach yr ansicrwydd a'r anniogelwch a brofwyd yn ystod y cyfnod hwn, gan nodi sut yr effeithiodd Brexit nid yn unig ar hawliau mudwyr o'r UE ond hefyd ar eu hawlogaethau, ond hefyd eu anheddiad ac ymdeimlad o hunaniaeth a pherthyn. Mae'r dadansoddiad yn taflu goleuni ar wahanol emosiynau ac ymatebion negyddol a ysgogwyd gan y refferendwm, gan ddangos yr amrywiaeth o brofiadau ymfudwyr. Tynnu sylw at y ffyrdd lluosog a chymhleth yr effeithiodd y refferendwm ar y mudwyr.	Mae angen astudio'r ymlyniadau newidiol y mae'n rhaid i fudwyr eu gosod wrth i'r DU dynnu'n ôl o'r UE, gan ymchwilio i brofiad digwyddiadau geowleidyddol ehangach mewn ardaloedd penodol. Mae angen mwy o ymchwil hefyd i ddeall gwahanol brofiadau ar draws y DU, gan dynnu sylw at feysydd o wahanol gyd-destunau demograffig, cyfansoddiadol, ac economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys patrymau pleidleisio gwahanol, gweinyddiaethau datganoledig, cyd-destunau ieithyddol, gwahaniaethau gwledig-trefol, a lleoedd sydd "wedi cael budd" neu "wedi cael eu gadael allan" o globaleiddio. Angen rhoi cyfrif am

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
								brofiadau gwahanol grwpiau mudol.
Porter, J., Lever, J. a Thompson, A.	2016	Social Network Evolution during Long-term Migration: A comparison of three case studies in the South Wales region	Erthygl Cyfnodolyn	Ymfudwyr Pwylaidd yn Ne Cymru	Deall sut mae'r ymfudwyr yn defnyddio esblygodd eu rhwydweithiau cymdeithasol dros amser a beth mae'r esblygiad hwnnw'n ei olygu i'w hintegreiddiad diwylliannol ac economaidd yn y wlad gyrchfan	Casglwyd tri sampl trwy astudiaethau annibynnol, ansoddol o ymfudwyr Pwylaidd yn rhanbarth De Cymru, sef Caerdydd, Merthyr Tudful a Llanelli.	<p>Mae esblygiad rhwydweithiau cymdeithasol ymfudwyr yn y wlad yn cael effaith ar integreiddiad economaidd a diwylliannol yr ymfudwyr i'r gymdeithas y maent yn aros ynddi am gyfnod amhenodol ac o bosibl yn ymgartrefu ynddi.</p> <p>Dechreuodd pob un o'r mudwyr yn y samplau yn rhanbarth De Cymru eu hamser yn y DU gyda rhwydwaith cymdeithasol yn cynnwys cysylltiadau bond. Roedd yr ymfudwyr hynny â lefelau uwch o gymhwysedd yn Saesneg yn gallu ffurfio rhwydweithiau pontio gyda ffrindiau newydd nad oeddent yn Bwylaidd a chysylltiadau yn yr ardal oedd y symudont iddynt. Gallai hyn fod o ganlyniad i gael cyfleoedd cyflogaeth ochr yn ochr â phobl nad ydynt yn Bwyliaid neu oherwydd eu bod yn rhan o gymuned amrywiol. I'r mudwyr hynny â sgiliau iaith Saesneg cyfyngedig, neu heb fawr o gyfle i ddatblygu eu sgiliau iaith, roedd yn anodd torri allan o'rwydweithiau a oedd yn dyddio o'r cyfnod cyn mudo neu'r rhai sy'n adeiladu grwpiau bach o ymfudwyr Pwylaidd eraill.</p>	I lunwyr polisi, ar lefel genedlaethol, mae symudedd dinasyddion yr UE, ac yn benodol eu ymfudiad i'r DU, wedi dod yn fater polisi cyhoeddus mawr dros y degawd diwethaf, gyda mwy o wrthwynebiad i ymfudwyr yn y DU ers 2013. Heb unrhyw gyfyngiadau ar yr amser gall ymfudwyr o aelod-wladwriaethau'r UE aros yn y DU, yr argyfwng ffoaduriaid yn gorlifo yn Ewrop a refferendwm Brexit, y teimlad cyffredinol yw bod ymfudiad (hyd yn oed os yw wedi'i awdurdodi) yn broblem y mae angen ei rheoli. Mae'r angen i annog integreiddio yn hollbwysig.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
Ursula Kelly ac Iain McNicoll Viewforth Consulting Ltd	Tach 2017	The Economic Impact of International Students in Wales	Adroddiad	Myfyrwyr rhyngwladol (UE a thu allan i'r UE) sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru.	Dadansoddiad o'r effaith economaidd ar Gymru yn sgil myfyrwyr rhyngwladol yn astudio yn yr wyth prifysgol yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd ac ariannol 2015/16	Dadansoddiad data meintiol	Cynhyrchodd pob myfyriwr UE £19.3k o allbwn Cymreig. Cynhyrchodd pob myfyriwr UE £9.3k o GYC Cymreig. Cynhyrchwyd un swydd Gymreig gan bob 6 myfyriwr UE yng Nghymru.	Daliodd niferoedd y myfyrwyr o wledydd yr UE i fyny yn weddol dda yn ystod dwy flynedd yr ymchwil. Fodd bynnag, wrth edrych i'r dyfodol ar ôl Brexit mae'r farchnad hon hefyd yn debygol o gael ei heffeithio gyda goblygiadau i economi Cymru a pherthnasoedd masnach ryngwladol yn ogystal ag i'r prifysgolion eu hunain.
Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru	Tach 2016	Evidence Summary on EU Migration	Adroddiad	Ymfudiad dinasyddion yr UE i ac o Gymru	Mae'n dwyn ynghyd dystiolaeth bresennol ar bedwar mater: maint ymfudiad o'r UE i Gymru; ymfudiad o'r UE o Gymru; demograffeg a nodweddion marchnad lafur mudwyr o'r UE sy'n byw yng Nghymru; ac agweddau'r cyhoedd at	Dadansoddiad data eilaidd; Dadansoddiad eilaidd o ddata arolygon cymdeithasol	Mae cyfran y rhai sy'n byw yng Nghymru sy'n fudwyr o'r UE yn isel o gymharu â chyfartaledd y DU. Yn y degawd diwethaf mae cyfran y mudwyr o'r UE wedi cynyddu ond yn arafach na chyfartaledd y DU. Mae'r rhan fwyaf o ymfudwyr hirdymor yr UE yn dod i Gymru i weithio. Mae mwy na hanner yn dweud bod ganddyn nhw swydd i fynd iddi yn barod ar ôl cyrraedd. Mae mwy na theirgwaith cymaint o ymfudwyr o'r UE ag ymfudwyr o'r tu allan i'r UE ym maes gweithgynhyrchu, ac ar gyfer gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg ac iechyd, mae mwy na dwywaith cymaint	Mae'r lefel gymharol isel o fudo o'r UE i Gymru yn awgrymu y gallai cyfyngiadau ar symudiad rhydd pobl gael llai o effaith mewn termau cyfanredol eang nag mewn rhannau eraill o'r DU. Mae dosbarthiad anwastad ymfudwyr o'r UE sy'n byw yng Nghymru yn golygu y gallai maint effaith cyfyngiadau ar symud rhydd amrywio rhwng cymunedau, neu

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
					ymfudwyr o'r UE yng Nghymru.		<p>o ymfudwyr o'r tu allan i'r UE ag ymfudwyr o'r UE.</p> <p>Mae data arolwg yn awgrymu bod pobl yng Nghymru yn cydymdeimlo llai ag ymfudwyr o'r UE na phobl mewn rhannau eraill o'r DU.</p> <p>Mae bron i dri chwarter yn ystyried gweithwyr mudol yr UE yn gost net.</p>	<p>ddiwydiannau a gwasanaethau sydd wedi'u crynhoi'n ofodol.</p> <p>Gall y ffigurau cyffredinol guddio pa mor agored i niwed yw rhai gwasanaethau cyhoeddus a sectorau economaidd i gyfyngiadau ar symud rhydd. Mae dadansoddiad yn dangos y gallai twristiaeth a gweithgynhyrchu fod yn fwy agored i niwed na sectorau eraill.</p>
Knight, J., Lever, J. a Thompson, A.	2014	The labour market mobility of Polish migrants: A comparative study of three regions in South Wales, UK	Erthygl Cyfnodolyn	Ymfudwyr Pwylaidd yn Ne Cymru	Cymharu datblygiad Pwyliaid yn y farchnad lafur ar ôl 2004 ar draws tair ardal ofodol hollol wahanol yn Ne Cymru dros amser	Data ansoddol ar ymfudwyr Pwylaidd ôl-2004 o dri sampl: Caerdydd, Merthyr Tudful a Llanelli.	Mae mudwyr Pwylaidd fel arfer yn tanamcangyfrif faint o amser y byddant yn ei dreulio dramor. Fel dinasyddion yr UE, mae gallu ymfudwyr i aros yn y DU am gyfnod amhenodol yn ffactor sy'n cyfrannu at symudedd eu marchnad lafur oherwydd, heb gyfyngiadau fisa ar eu hamser yn y wlad, gallant ennill sgiliau newydd, rhoi cynnig ar ddewisiadau gyrfa newydd ac integreiddio'n llawn i mewn i economi Prydain.	Nid yw'r marchnadoedd llafur lleol o reidrwydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer symudedd cynyddol. Gall y rhai heb y sgiliau i fasnachu'n alwedigaethol fod yn agored i newidiadau ble nad oes ganddynt fawr ddim trosoledd, os o gwbl, ond cyn belled â bod eu rhagolygon yn well yn y DU nag y maent yng Ngwlad Pwyl,

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							<p>Mae ymfudwyr yn ymdrin â symudedd yn y farchnad lafur yn dra gwahanol. Gall dulliau amrywio o orgyflawnwyr, sy'n buddsoddi'n weithredol yn eu datblygiad cyfalaf dynol er mwyn dringo'r rhaniad llafur, i'r unigolion hynny sy'n fodlon ymdopi heb unrhyw nodau penodol.</p> <p>Mae lle mae ymfudwyr yn byw ac yn gweithio yn effeithio ar eu cyfleoedd cyflogaeth ac ar eu gallu i aros dramor. Roedd pob un o'r ardaloedd yn cynnig rhagolygon cyflogaeth gwahanol. Ni fyddai'r mudwyr â sgiliau cymharol uwch sy'n byw yng Nghaerdydd wedi mwynhau'r un rhagolygon cyflogaeth yn yr economïau lleol mwy bychan, llai amrywiol yn Llanelli a Merthyr Tudful.</p>	mae'n debygol iawn y bydd niferoedd sylweddol yn aros yn hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol.
Lemos S.	2014	Labour Market Effects of Eastern European Migration in Wales	Erthygl cyfnodolyn	Ymfudiad Dwyrain Ewrop yng Nghymru	Edrych ar gyfuniad o ffactorau sy'n effeithio ar y farchnad lafur yng Nghymru o ganlyniad i Ymfudo o Ddwyrain Ewrop	Dadansoddiad data	Roedd ymfudwyr o Ddwyrain Ewrop wedi crynhoi'n bennaf mewn swyddi sgiliau isel â thâl isel mewn galwedigaethau elfennol a gweithwyr peiriannau yn y sectorau gweithgynhyrchu ac arlwy. Wedi'i ganoli'n bennaf mewn dinasoedd sy'n ffinio â Lloegr, megis Casnewydd, Caerdydd, Wrecsam a Sir y Fflint. Ychydig o dystiolaeth a ddarganfuwyd bod y mewnlif o fudwyr o Ddwyrain	Mae canlyniadau'n awgrymu bod gweithwyr ar gyflogau uwch wedi cael codiadau cyflog mwy, cadarnhaol a sylweddol, tra bod gan weithwyr ar gyflogau is godiadau cyflog llai a di-nod. Un dehongliad: o'i gymharu â gweithwyr ar gyflogau uwch, roedd

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							Ewrop wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyflogau neu gynnydd mewn hawlwyr diweithdra yng Nghymru rhwng 2004 a 2006. Yn benodol, dim tystiolaeth o effaith andwyol ar ddiweithdra hawlwyr ifanc, benywaidd neu sgiliau isel a dim tystiolaeth o effaith andwyol ar gyflogau'r rhai ar gyflog isel. Roedd amcangyfrifon effaith cyflog yn gadarnhaol, yn fach ac yn ddi-nod ar waelod y dosbarthiad cyflog, ac yn fwy yn uwch i fyny, yn sylweddol uwch na'r canolrif. Mae cynnydd o un pwynt canran yn y gyfradd ymfudo yn codi cyflogau gweithwyr yn y 60fed (70fed) ganradd o'r dosbarthiad 3.9 y cant (5.2 y cant), tra ei fod yn codi cyflogau cyfartalog 3.4 y cant.	gan weithwyr ar gyflogau is gynyddiadau cyflog llai ffafriol (ond nid anffafriol). Yn atodol, mae'n bosibl bod effeithiau mwy andwyol ar gyflogau i weithwyr ar gyflogau is wedi'u lliniaru neu eu gwrthbwysu oherwydd eu bod wedi'u hamddiffyn gan isafswm cyflog a oedd yn cynyddu ar yr un pryd.
Oxford Economics	2011	The Impact of International and EU students in Wales	Adroddiad	Myfyrwyr UE a rhyngwladol sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru	Asesu effaith economaidd myfyrwyr rhyngwladol ac UE sy'n astudio mewn prifysgolion yng Nghymru	Dadansoddiad Data Meintiol ynghylch: ffioedd dysgu a delir i brifysgolion yng Nghymru gan myfyrwyr rhyngwladol ac UE; Gwariant ar gynhaliaeth gan fyfyrwyr rhyngwladol ac UE tra'n byw yng Nghymru;	Cyfrannodd myfyrwyr o'r UE a oedd yn astudio yng Nghymru yn 2009/10 £18 miliwn mewn gwerth ychwanegol i economi Cymru a £3 miliwn arall i economi'r DU drwy'r £15 miliwn a wariwyd ganddynt ar ffioedd dysgu. Gwariodd myfyrwyr yr UE £52 miliwn mewn gwariant byw yn 2009/10, gan gynhyrchu cyfraniad gwerth ychwanegol o £32 miliwn i CMC Cymru a chyfraniad pellach o £13 miliwn i weddill economi'r DU.	

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
						a, Gwariant gan ffrindiau a pherthnasau sy'n ymweld â myfyrwyr rhyngwladol ac UE tra'u bod yn byw yng Nghymru.	Gwariodd ymwelwyr myfyrwyr yr UE £15 miliwn yn 2009/10, gan gynhyrchu cyfraniad gwerth ychwanegol o £13 miliwn i economi Cymru, a chyfraniad pellach o £4 miliwn mewn gwerth ychwanegol i economi'r DU.	
IECHYD								
Piotr Teodorowski , Ruth Woods, Magda Czarnačka, Catriona Kennedy Population, Space and Place, e2436 <u>Testun llawn</u>	2021	Brexit, acculturative stress and mental health among EU citizens in Scotland	Erthygl cyfnodolyn	Dinasyddion yr UE sy'n byw yn yr Alban	Yn archwilio profiad dinasyddion yr UE o Brexit yn yr Alban, gyda ffocws ar eu hiechyd meddwl	Astudiaeth ansoddol, grwpiau ffocws (n = 7) gyda deg ar hugain o ddinasyddion yr UE, yn cynrychioli 13 o genhedloedd gwahanol o'r cyfnod cyn ac ar ôl ehangu'r UE yn 2004.	Soniodd y cyfranogwyr am dair prif ffynhonnell o straen dwys: ansicrwydd, teimladau o wrthod a phrofiadau o golled. Roedd y rhain yn gysylltiedig ag ystod o gyflyrau emosiynol a meddyliol negyddol gan gynnwys pryder, dicter, sioc a thristwch. Soniodd lleiafrif am anawsterau difrifol gan gynnwys trawma, pyliau o banig a dirywiad mewn cyflyrau iechyd corfforol a meddyliol presennol. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod cyd-destun diwylliannol gelyniaethus y Deyrnas Unedig wedi cael effeithiau pwysig, parhaus ar iechyd meddwl dinasyddion yr UE yn yr Alban.	Mae Brexit yn cynrychioli newid gelyniaethus i gyd-destun diwylliannol y Deyrnas Unedig, gan nodi cynnydd mewn stigma strwythurol tuag at ddinasyddion yr UE, gyda goblygiadau tebygol i'w straen a'u hiechyd meddwl.
Martynowski a, K., Korulczyk, T. a	2020	Perceived stress and well-being of Polish migrants in	Erthygl Cyfnodolyn	Ymfudwyr Pwylaidd sy'n byw yn y DU	Ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar les personol mewnudwyr	Cymerodd 551 o fudwyr Pwylaidd sy'n byw mewn gwahanol ranbarthau o'r DU ran	Ni sylwodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar unrhyw newid yn agwedd neu ymddygiad y goruchwyliwr (81%) neu gydweithwyr (84%), a dim ond canran fach o'r cyfranogwyr a nododd	Roedd cyfyngiad mawr yn ymwneud â daliadaeth gwaith cyfranogwyr na chafodd ei ystyried ac a allai fod

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Pobllogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
Mamcarz, P. J. Plos One, 15(7), e0236168.		the UK after Brexit vote			Pwylaidd sy'n byw yn y DU yn wyneb newid gwleidyddol sylweddol — y bleidlais Brexit. Newidiadau canfyddedig mesuredig yn agwedd neu ymddygiad goruchwylwyr a chydweithwyr, straen canfyddedig ymatebwyr, a'i ganlyniadau megis llesiant seicolegol a bwriad i adael y DU ar ôl pleidlais Brexit.	mewn arolwg ar-lein Qualtrics.	newidiadau negyddol yn agwedd neu ymddygiad y goruchwylwyr (9%) a chydweithwyr (14%). Roedd newid negyddol yn agwedd neu ymddygiad goruchwylwyr neu gydweithwyr yn gysylltiedig â straen canfyddedig, a oedd yn ei dro yn gysylltiedig â bwriad i adael y DU, lles seicolegol a boddhad bywyd.	wedi effeithio ar ganfyddiad cyfranogwyr o gysylltiadau gwaith.
Piotr Teodorowski	2020	The Mental Health and Wellbeing of EU Citizens in the UK: A Systematic Review of the Qualitative Literature	Adolygiad systematig/Cyf nodolyn Academaidd	Dinasyddion yr UE wedi ymfudo i'r DU	I nodi pa dystiolaeth sydd ar gael ynghylch profiadau bywyd a'r effaith ar iechyd meddwl a lles dinasyddion yr UE sy'n mudo i'r DU	Adolygiad systematig o lenyddiaeth ansoddol	Tarfu ar gysylltedd cymdeithasol, o ganlyniad i anawsterau cyfathrebu yn Saesneg, a/neu symud yn gorfforol oddi ar rwydweithiau cymdeithasol presennol a adawyd yn y wlad wreiddiol. Roedd cyllid, cyfleoedd gwaith ac amodau gwaith i gyd yn bwysig i les. Daeth cyflogaeth i'r amlwg fel ffactor pwysig sy'n dylanwadu ar les. Mewn	Cymharol ychydig a wyddom am iechyd meddwl a lles ar ôl ymfudo. Mae mabwysiadu diwylliant ymysg dinasyddion yr UE yn cymryd amser ac nid yw o reidrwydd yn llinol nac yn llwyddiannus.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							rhai achosion, roedd yn ymddangos bod cyflogaeth yn effeithio ar iechyd meddwl trwy brosesau mabwysiadu diwylliant.	Roedd cyflogaeth, yn enwedig yn ymwneud â chyflogau isel, amodau gwaith gwael, neu fod â gormod o gymwysterau ar gyfer swydd, yn cael ei brofi gan ddinasyddion yr UE a gallai rhwystrau iaith waethygu'r profiadau hyn.
Viet-Hai Phung, Zahid Asghar, Milika Matiti ac A. Niroshan Siriwardena BMC Health Services Research 20, erthygl rhif 173 <u>Testun llawn</u>	2020	Understanding how Eastern European migrants use and experience UK health services: a systematic scoping review	Erthygl Cyfnodolyn	Ymfudwyr o Ddwyrain Ewrop yn y DU	Cynnal adolygiad cwmpasu systematig o lenyddiaeth gyhoeddedig ar ddefnydd a phrofiadau mudwyr o Ddwyrain Ewrop o wasanaethau iechyd y DU.	Adolygiad cwmpasu	Y rhwystrau a nodwyd amlaf i gael mynediad at ofal iechyd a'i ddefnyddio oedd dealltwriaeth gyfyngedig o sut roedd y system yn gweithio ac anawsterau iaith. Roedd hefyd yn gyffredin i ymfudwyr ddychwelyd i'w mamwlad i system gofal iechyd yr oeddent yn gyfarwydd â hi, yn rhydd o rwystrau iaith. Roedd rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol yn werthfawr i gleifion â meistrolaeth gyfyngedig ar Saesneg yn absenoldeb gwasanaethau dehongli a chyfieithu ar y pryd addas ac ar gael. © Yr Awdur(on)	Er mwyn mynd i'r afael â dealltwriaeth gyfyngedig o'r system gofal iechyd a'r iaith Saesneg, gallai'r GIG gynhyrchu gwybodaeth ym mhob un o ieithoedd Dwyrain Ewrop ynghylch sut mae'n gweithredu. Gallai ychwanegu cenedligrwydd at y Ffurflen Adrodd Cleifion Electronig ddatgelu'r galw am wasanaethau dehongli a chyfieithu. Mae angen annog mudwyr o Ddwyrain Ewrop i gofrestru gyda meddygon teulu er mwyn lleihau presenoldeb mewn

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
								adrannau damweiniau ac achosion brys ar gyfer cyflyrau gofal sylfaenol.
Piotr Teodorowski	2019	How Brexit Impacts EU Citizens' Mental Health And Wellbeing Research Findings	Adroddiad	Dinasyddion yr UE yn yr Alban	Archwilio profiad dinasyddion yr UE o Brexit ac a oes unrhyw effaith ar eu hiechyd meddwl a lles.	Astudiaeth ansoddol yn cynnal cyfweiliadau grŵp ffocws lled-strwythuredig (n=7)	Achosodd ansicrwydd ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol, a statws cyfreithiol dinasyddion yr UE bryder. Roedd llawer o gyfranogwyr yn teimlo na allant wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys dechrau astudiaethau neu brynu tŷ. Roedd cyfranogwyr yn ystyried symud y tu allan i'r DU ond roeddent yn bryderus na fyddent yn cael dychwelyd. Chwiliodd dinasyddion yr UE am gymorth ynghylch eu statws sefydlog. Er enghraifft, aethant i ddigwyddiadau lleol gyda gwleidyddion neu gyfreithwyr ar sut i wneud cais am statws sefydlog. Fodd bynnag, yn aml, ni ellid ateb llawer o gwestiynau ymarferol gan nad oedd safbwynt llywodraeth y DU yn glir.	Mae iechyd meddwl a lles dinasyddion yr UE yn cael eu heffeithio gan Brexit * Mae iechyd meddwl a lles yn darparu ffenestr i iechyd y genedl mewn perthynas ag integreiddio a chydlyniant * Mae gan yr Alban fantais hollbwysig dros weddill y DU yn hyn o beth ond mae'n dal i wynebu heriau
Kasia E Maciagowsk a a Terry Hanley	2017	What is known about mental health needs of the post-	Cyhoeddiad Cyfnodolyn Academaidd	Ymfudwyr Pwylaidd yn y DU	Er mwyn cael mwy o ddealltwriaeth o brofiad seicolegol	Adolygiad Systematig	Roedd yr agweddau iechyd meddwl negyddol ar fudo yn cynnwys: Rhwystrredigaeth a straen lluosog; anawsterau iaith; caledi ariannol;	Dylid ystyried agweddau negyddol ar iechyd meddwl wrth ddarparu cymorth proffesiynol.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
		European Union accession Polish immigrants in the UK? A systematic review			y boblogaeth fudol hon.		<p>gwahaniaethu ac arwahanrwydd; anghyfarwydd â diwylliant; stigma diwylliannol a chywilydd;</p> <p>Roedd y pethau cadarnhaol yn cynnwys:</p> <p>Rhyddid; Cyfleoedd newydd; Mecanweithiau ymdopi gan gynnwys optimistaeth, cyfalaf cymdeithasol a diwylliant.</p>	<p>Dylid ystyried cydrannau cadarnhaol a strategaethau ymdopi wrth deilwra cymorth iechyd meddwl i anghenion y boblogaeth hon.</p> <p>Mae gan is-grwpiau o boblogaethau (e.e. dynion, menywod, plant, hoywon) wendidau gwahanol ac maent yn profi straen lluosog sy'n unigryw i'w hamgylchiadau</p>
<p>Holly Porteous</p> <p>Prifysgol Glasgow, Prifysgol Abertawe</p> <p><u>Migrants and Healthcare in Aberdeen/shire</u></p>	2017	Migrant Experiences in Aberdeen/shire: SSAMIS 2017 Report Series	Adroddiad	Ymfudwyr CEE a 60 o arbenigwyr ar draws yr Alban	Rhan o gyfres o bapurau yn 2017 yn ymwneud â mudo yn Swydd Aberdeen, gan gwmpasu gofal iechyd, addysg, dysgu iaith, cyflogaeth a thai.	Cyfweliadau gyda dros 200 o ymfudwyr CEE a 60 o arbenigwyr ar draws yr Alban, gyda ffocws arbennig ar Ddinas Aberdeen a Swydd Aberdeen wledig	<p>Priodolwyd llawer o faterion a ddisgrifiodd ymfudwyr mewn perthynas â gofal iechyd i'r bwlch rhwng disgwyliadau a realiti, yn seiliedig ar wahaniaethau rhwng gofal iechyd yn eu gwledydd tarddiad yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop (e.e. rhwystredigaeth na allent bob amser gyfeirio eu hunain at arbenigwyr);</p> <p>Gallai ymfudwyr ei chael hi'n anodd deall lle'r oeddent yn y system, yn enwedig os nad oedd eu Saesneg yn ddigonol. Gall fod yn anodd deall rhestrau aros, prosesau ac ati</p>	

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							<p>oherwydd eu bod yn gymhleth, ac mae anawsterau iaith yn rhwystro hyn.</p> <p>Roedd rhai pobl heb lawer o Saesneg yn teimlo'n fregus iawn yn y system gofal iechyd, er eu bod wedi cael eu trin yn dda.</p> <p>Iechyd meddwl – roedd unigrwydd yn broblem sylweddol i fewnfudwyr a gallai gael effaith ar eu lles, yn ogystal â methu â sefydlu rhwydweithiau cymorth lleol oherwydd gweithio oriau hir neu broblemau gyda'r Saesneg.</p> <p>Roedd yna werthfawrogiad gwirioneddol o rai agweddau ar ofal iechyd yr Alban, e.e. presgripsiynau am ddim, dyfeisiau meddygol fel cymhorthion clyw, ac ati.</p>	
Heide B. Weishaar	2010	"You have to be flexible" — Coping among polish migrant workers in Scotland	Cyhoeddiad Cyfnodolyn Academaidd	Y gymuned Bwylaidd yng Nghaeredin	Archwilio a nodi strategaethau ymdopi llwyddiannus ymfudwyr Pwylaidd yng Nghaeredin a chael cipolwg ar y broses ymdopi a'i dylanwad posibl ar ymaddasu ar ôl	Cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda mudwyr Pwylaidd sy'n gweithio mewn swyddi â llaw a sgiliau isel yng Nghaeredin. 8 cyfweliad ansoddol, wyneb yn wyneb, 2 grŵp ffocws, yn cynnwys 4 a 5 o gyfranogwyr	Mae mudwyr Pwylaidd yn ddyfeisgar iawn wrth ymdrin â'r achosion straen maent yn eu hwynebu. Mae'n cadarnhau'r defnydd o wahanol fathau o ymdopi gan gynnwys datrys problemau, rheoleiddio emosiwn a strategaethau sy'n canolbwyntio ar asesu. Mae cefnogaeth gymdeithasol ac asesu yn dod i'r amlwg yn bwysig.	Gallai gwell dealltwriaeth o ymdopi ac yna cymorth wedi'i deilwra i ymfudwyr rhyngwladol gael dylanwad cadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, yn enwedig mewn cymdeithasau lle mae symudedd rhyngwladol a phoblogaethau mudol

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Pobllogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
					mudo economaidd.			mawr yn ffenomenau cyffredin.
ADDYSG A PHLANT								
Jane Falkingham, Corrado Giulietti, Jackline Wahba, Chuhong Wang The Manchester School 89(2), t.139-171 <u>Testun llawn</u>	2021	The impact of Brexit on international students' return intentions	Erthygl cyfnodolyn	Myfyrwyr rhyngwladol (yn cynnwys UE) yn astudio yn y DU	Sut yr effeithiodd hysbysiad ffurfiol llywodraeth y DU o'i bwriad i adael yr Undeb Ewropeaidd o dan Erthygl 50 ar fwriadau setlo ymhlith sampl gynrychioliadol o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n graddio	Defnyddio data o'r Arolwg o Fyfyrwyr Rhyngwladol sy'n Graddiedio (SoGIS) a weinyddwyd cyn ac ar ôl sbarduno Erthygl 50, yn defnyddio cynllun gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (DID) yn cymharu bwriadau myfyrwyr o'r UE i adael gyda bwriadau i adael myfyrwyr o'r tu allan i'r UE, cyn ac ar ôl 29 Mawrth 2017—y diwrnod y cafodd Erthygl 50 ei sbarduno gan lywodraeth y DU	Mae myfyrwyr yr UE yn sylweddol fwy tebygol na myfyrwyr nad ydynt o'r UE o gynllunio ar gyfer gadael y DU ar ôl graddio yn syth ar ôl y cyhoeddiad. Caiff canlyniadau eu llywio gan fyfyrwyr o wledydd newydd yr UE a myfyrwyr o wledydd yr UE14 nad oes ganddynt gynlluniau mudo cadarn. © 2021 Yr Awduron.	Mae gan ganfyddiadau oblygiadau polisi pwysig ar ba mor ddeniadol yw'r DU i fyfyrwyr rhyngwladol, yn enwedig myfyrwyr yr UE. Os yw'r DU yn anelu at barhau i ddenu'r goreuon a'r disgleiriaf, mae lleihau ansicrwydd o ran hawliau yn ogystal â rhagolygon economaidd yn hollbwysig. Felly, dylai llywodraeth y DU gymryd camau i leihau'r ansicrwydd a achosir gan Brexit i wladolion yr UE sy'n byw yn y DU drwy egluro eu hawliau a'u hawlogaethau.
Daniela Sime, Marta Moskal, Naomi Tyrrell	2020	Going Back, Staying Put, Moving On: Brexit and the Future Imaginaries	Erthygl cyfnodolyn	Ymfudwyr ifanc (12-18 oed) yr UE yn y DU	I drafod dychmygion mudwyr ifanc yr UE am eu dyfodol, yng ngoleuni ansicrwydd a	Arolwg ar raddfa fawr, grwpiau ffocws ac astudiaethau achos teulu	Er bod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn bwriadu aros ym Mhrydain yn y dyfodol agos, roedd yn amlwg bod Brexit wedi sbarduno newidiadau i'w cynlluniau hirdymor. Roedd y pryderon hyn yn gysylltiedig ag ansicrwydd	Roedd llawer yn rhagweld dyfodol lle gallent benderfynu gadael y DU pe bai amgylchiadau'n mynd yn anffafriol i'w cynlluniau

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
Central and Eastern European Migration Review 9(1), t.85-100 <u>Testun llawn</u>		of Central and Eastern European Young People in Britain			risgiau a yrrir gan Brexit yn ogystal â phrosesau cymathu ac allgáu gwrthdynnol.		<p>ynghylch mynediad i addysg a'r farchnad lafur i wladolion yr UE ar ôl Brexit, natur ansicr eu statws cyfreithiol a'u pryderon cyffredinol ynghylch cynnydd mewn hiliaeth a senoffobia.</p> <p>Roedd rhai eisiau aros ym Mhrydain i orffen eu haddysg ac efallai cael rhywfaint o brofiad gwaith – hyd yn oed i setlo a sicrhau hawliau dinasyddiaeth. I lawer o rai eraill, fodd bynnag, roedd dychymyg o'r dyfodol yn cynnwys lleoedd nad oedd gan y bobl ifanc hyn unrhyw brofiad uniongyrchol ohonynt, ond lle'r oeddent yn meddwl y byddai ganddynt well siawns o deimlo'n fodlon ac yn ddiogel. I'r rhan fwyaf, nid oedd eu dyfodol yn cynnwys dychwelyd i wlad enedigol ac eithrio i ymweld â theulu, gan fod rhai yn ymwybodol y gallai eu cynlluniau i allfudo yn y dyfodol olygu gadael eu rhieni ar ôl.</p>	ar gyfer addysg, hyfforddiant, cyflogaeth neu fywyd teuluol diogel. Eu prif bryderon oedd eu hawliau i symudedd – gan gynnwys cyfleoedd i weithio ac astudio mewn gwledydd eraill – a phryderon am fywyd teuluol. Roedd yn ymddangos bod y mwyafrif yn parhau i fod yn agored i ail-addasu eu cynlluniau a'u syniadau am yr hyn y byddai'r dyfodol yn ei olygu yn dibynnu ar ganlyniad y cyfnod pontio Brexit.
Daniela Sime Scottish Affairs	2020	New Scots? Eastern European young people's feelings of belonging and national	Erthygl cyfnodolyn	Pobl ifanc 12–18 oed a oedd wedi symud i'r Alban o Ganolbarth a Dwyrain Ewrop		Arolwg Ar-lein (n = 250) 2016 - 2018	Mae'r canfyddiadau allweddol yn datgelu bod ffactorau fel eu profiadau bob dydd o hiliaeth a senoffobia a chanfyddiadau o'r hyn y gallai pobl eraill, yn aml eu ffrindiau, ei feddwl am bwy cael perthyn wedi'u nodi fel rhai arwyddocaol i'r hunaniaethau y teimlai mudwyr ifanc y gallent eu hawlio. Er	Yng nghyd-destun Brexit, mae hyn yn her o ran gwneud i Albanwyr Newydd deimlo eu bod yn perthyn i'r Alban, gan y gallai llawer nawr benderfynu adolygu eu cynlluniau i aros yn yr

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
29(3), t.336-353 <u>Testun llawn [fersiwn cyn argraffu – gallai fod yn wahanol i'r fersiwn a gyhoeddir]</u>		identity in Scotland post-Brexit					bod llawer o bobl ifanc wedi mynegi ymdeimlad cryf o berthyn yn y DU gyfan a thros hanner yn dweud eu bod yn teimlo'n Albanaidd, mae'n ymddangos bod mynediad at hunaniaeth genedlaethol Albanaidd yn gyfyngedig ac yn aml yn cael ei wrthod iddynt. Ar yr un pryd, teimlai llawer y gallent feddiannu hunaniaeth genedlaethol eu gwlad enedigol neu hawlio hunaniaethau cysylltnod a oedd yn cynnwys Albaniaeth a hunaniaeth Ewropeaidd.	Alban yn y tymor hir os bydd eu hawliau'n newid.
Mariña Fernández-Reino (The Migration Observatory)	2020	Children of migrants in the UK	Briefing Report	Rhai dan 18 sy'n byw yn y DU	Yn edrych ar yr hyn a wyddom am blant ymfudwyr o dan 18 oed sy'n byw yn y DU. Mae'n edrych ar niferoedd a chyfrannau plant a aned dramor a phlant nad ydynt yn ddinasyddion y DU, statws mewnfudo a llwybrau at ddinasyddiaeth, amgylchiadau economaidd a	Adrodd ar dystiolaeth	*Mae plant ac oedolion sy'n ddinasyddion yr UE yn llai tebygol o wneud cais am ddinasyddiaeth y DU na thriogion â cenedligrwydd y tu allan i'r UE. Fodd bynnag, ers refferendwm Brexit, cynyddodd nifer dinasyddion yr UE y rhoddwyd dinasyddiaeth y DU iddynt yn sydyn o lefelau isel yn flaenorol ac mae'n bosibl y gallai hyn barhau. *Yn 2019, plant o dan 18 oed sy'n byw yn y DU a anwyd yng ngwledydd yr UE = 202,000 yng ngwledydd yr UE-14 a 199,000 mewn gwledydd sydd wedi'u derbyn i'r UE ar ôl 2004 *Yn 2018, roedd gan blant â Saesneg fel iaith Ychwanegol (EAL) a ddechreuodd ysgol yn Lloegr cyn 9	

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
					pherfformiad academiaidd		<p>oed gyrhaeddiad tebyg ar gyfartaledd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 o'i gymharu â myfyrwyr nad ydynt yn EAL</p> <p>*Erbyn diwedd mis Mawrth 2020, roedd y cynllun EUSS wedi gweld cyflwyniad 261,880 o statws sefydlog a 150,940 cyflwyniad statws cyn-sefydlog wedi'u rhoi i blant o dan 18 oed.</p> <p>*Nid oes gan 40% o blant mewn cartrefi lle mae pob aelod wedi'i eni yn yr UE eu hystafell wely eu hunain, o gymharu â 10% ymhlith teuluoedd a aned yn y DU.</p>	
<p>Elisabetta Zontini, Davide Però</p> <p>International Migration 58(1), tt.90-104</p> <p><u>Crynodeb</u></p>	2020	EU Children in Brexit Britain: Re-Negotiating Belonging in Nationalist Times	Erthygl Cyfnodolyn	Teuluoedd â phlant rhwng saith a 17 oed gydag o leiaf un rhiant Eidalaidd, ac felly'n perthyn i'r grŵp mwy breintiedig o "hen" ymfudwyr yr UE, a sy'n byw yn rhanbarth	Archwilio sut mae plant Eidalaidd a'u rhieni yn ymdopi â'r pwysau neo-gymathiadol cynyddol ym Mhrydain.	Cychwynnodd prosiect ethnograffig hydredol yn cynnwys cyfweiliadau ac arsylwadau yn 2015.	<p>Mae hinsawdd wleidyddol neo-gymathiadol a chenedlaetholgar bresennol Prydain, sydd wedi'i gwaethygu gan Brexit, yn effeithio'n fawr ar deuluoedd yr UE a'u plant.</p> <p>Yn ardal Canolbarth Lloegr ar ôl Brexit mae trafodaethau neo-genedlaetholgar atgyfodedig yn effeithio ar allu plant Eidalaidd i drafod hunan-ddealltwriaeth a'r posibilrwydd o hawlio hunaniaethau niferus, lluosog neu ddeuol, gan gyfrannu ar yr un pryd at ymddangosiad gwendidau a phryderon newydd, diffyg diogelwch a rheolaeth dros fywyd rhywun sy'n aml</p>	Amlygodd yr erthygl bŵer y drafodaeth a'r ffordd o feddwl atgyfodedig naill ai/neu neo-genedlaetholgar yn Ewrop, y mae mwyafrif y cyfranogwyr wedi'u mewnnoli. Gall plant ddewis bod yn Brydeinig <i>neu'n</i> Eidalaidd (gyda phwysau cynyddol am y cyntaf), ond mae'n gynyddol anodd iddynt hawlio hunaniaeth ddeuol, lluosog neu ôl-genedlaethol ym Mhrydain, er gwaethaf

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
				Canolbarth Lloegr			yn mynd y tu hwnt i faterion braint economaidd a chyfoeth.	eu profiadau a'u magwraeth drawswladol a symudol iawn.
Helen Stalford, Dyfan Humphreys Brexit Research by the European Children's Right Unit, Prifysgol Lerpwl <u>Testun llawn</u>	2020a	EEA Children and British Citizenship: Why it is Important to Focus on Roma Children	Briffio	Plant Roma o'r EU yn byw yn y DU	Ymwybyddiaeth plant Roma o'r UE o, mynediad i a chymhwysedd i ddinasyddiaeth Brydeinig	Ymgynghoriad â 54 o blant a phobl ifanc 10-18 oed ar draws 8 rhanbarth gwahanol yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Roedd llawer o'r bobl ifanc yn dod o fewn mwy nag un o'r grwpiau bregus hyn, roedd 33 yn dod o gymunedau Roma y Weriniaeth Tsiec, Slofacia, Rwmania a Latfia.	Mae ymfudwyr Roma yn debygol o fod dan anfantais anghymesur oherwydd Brexit (o ran eu mynediad cyfyngedig i'r EUSS a'u problemau o ran bodloni'r amodau cymhwysedd ar gyfer yr EUSS).	
Helen Stalford, Dyfan Humphreys Brexit Research by the European	2020b	EU Roma Children and the EU Settled Status Scheme: Awareness, Access and Eligibility	Briffio	Plant Roma o'r EU yn byw yn y DU	Yn archwilio ymwybyddiaeth plant Roma o'r UE o, mynediad i a chymhwysedd o dan delerau'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i	Amh	Mae'r gymuned Roma, gan gynnwys plant Roma, wedi bod yn absennol i raddau helaeth o drafodaethau a mentrau sydd â'r nod o hyrwyddo cofrestrriad EUSS. Mae eu statws cymdeithasol ac economaidd ymylol, ymgysylltiad isel â gwasanaethau cyhoeddus ac ymddiriedaeth ynddynt, lefelau is o sgiliau iaith, llythrennedd a thechnegol, a chynrychiolaeth	Dylai ymdrechion i hybu ymwybyddiaeth plant Roma o'r EUSS a'u mynediad ato, gynnwys ymdrechion i hybu eu hymwybyddiaeth o gofrestru dinasyddiaeth Brydeinig a mynediad ato.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
Children's Right Unit, Prifysgol Lerpwl <u>Testun llawn</u>					Ddinasyddion yr UE (EUSS)		gymesur uwch yn y system cyfiawnder troseddol yn eu gwneud yn arbennig o agored i fethu â bodloni meini prawf cofrestru a therfyn amser EUSS	
Naomi Tyrrell, Daniela Sime, Claire Kelly, Christina McMellon Population, Space and Place 25(1), e2205 <u>Testun llawn</u>	2019	Belonging in Brexit Britain: Central and Eastern European 1.5 generation young people's experiences	Erthygl cyfnodolyn	Ymfudwyr ifanc (12-18 oed) yr UE yn y DU	Archwilio profiadau pobl ifanc a aned yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop (CEE) sy'n rhan o'r genhedlaeth fudol 1.5 sy'n byw yn "Brexit Britain."	Arolwg ar-lein ar raddfa fawr, cyfweliadau lled-strwythuredig, grwpiau ffocws	Roedd mwyafrif y bobl ifanc yn honni ymdeimlad o berthyn i Brydain, tra'n teimlo ar yr un pryd ymdeimlad o fod rhwng-dau-fyd a welwyd mewn astudiaethau eraill o blant mudol— ddim yn teimlo eu bod yn "ffitio i mewn" yn gyfan gwbl i gymdeithas ym Mhrydain (lle roedden nhw'n byw) na'u gwlad enedigol (yn aml gwlad eu dinasyddiaeth). I rai pobl ifanc, roedd ansicrwydd Brexit wedi amharu ar eu hymdeimlad o berthyn i Brydain oherwydd bod eu hawl i berthyn (fel dinasyddion yr UE) wedi'i gwestiynu ar adeg pan oeddent yn cynllunio eu dyfodol yn y DU. I rai pobl ifanc eraill, roedd rhwyg yr ymfudo o wledydd CEE i Brydain yn ystod plentyndod wedi eu gwneud yn fwy agored i'r posibilrwydd o ymfudo eto—allan o Brydain Brexit i chwilio am well cyfleoedd, yn union fel y	Mae'r astudiaeth hon yn rhoi rhyw syniad o'r cwestiwn "beth nesaf?" ar gyfer y genhedlaeth CEE 1.5 sy'n byw ym Mhrydain yng nghydestun Brexit. Mae llawer o'r bobl ifanc eisiau parhau i fyw ym Mhrydain, o leiaf yn y tymor byr, ac yn teimlo ymdeimlad o berthyn i Brydain, lle maen nhw'n honni ac yn profi teimlad o berthyn sy'n cydfodoli.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							gwnaeth eu rhieni wrth symud i Brydain y cyfnod cyn Brexit.	
Chiara Manzoni, Heather Rolfe	2019	How schools are integrating new migrant pupils and their families	Adroddiad	Ymchwil gyda 15 o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Lloegr	Nodi arfer da ac addawol tuag at integreiddio plant mudol a'u teuluoedd yn llwyddiannus, ar draws pob maes dysgu a bywyd ysgol.	Cyfweliadau â rhanddeiliaid ac adolygiad tystiolaeth byr. Cyfweliadau a grwpiau ffocws mewn ysgolion cynradd ac uwchradd gyda staff a rhieni	Adroddodd ysgolion heriau penodol lle nad oes gan ddisgyblion lawer o Saesneg ond sydd hefyd yn anghyfarwydd ag agweddau addysgu, dysgu a diwylliannol bywyd ysgol. Roedd ysgolion yn aml yn rhoi cymorth y tu hwnt i addysg i deuluoedd mudol a oedd yn profi caledi, er enghraifft eu helpu i gael mynediad at wasanaethau fel iechyd a lles. Adroddwyd bod cyfyngiadau ariannol yn cyfyngu ar y cymorth y gallai ysgolion ei roi i ddisgyblion mudol. Roeddent yn golygu nad oedd ysgolion yn aml yn gallu llogi digon o athrawon neu staff cymorth SIY arbenigol, nac i gyflenwi offer. Mae myfyrwyr sy'n cyrraedd ym mlynnyddoedd olaf addysg orfodol yn wynebu heriau arbennig o ran caffael Saesneg i'r lefel angenrheidiol i basio arholiadau cyhoeddus. Mae gan hyn oblygiadau o ran eu dilyniant i astudiaeth academiaidd neu alwedigaethol ôl-16. Mae disgyblion mudol yn blaenoriaethu ffrindiau, caredigrwydd	Mae angen i ysgolion asesu plant a phobl ifanc mudol yn ofalus ar gyfer cymorth ychwanegol ac anghenion arbennig, ond yn yr un modd peidio â thrin disgyblion SIY felly. Dylid cydnabod y rôl anffurfiol y mae ysgolion yn ei chwarae wrth gynorthwyo teuluoedd, gan gynnwys ymfudwyr, a dylid darparu cymorth priodol lle bo angen, er enghraifft gan awdurdodau lleol. Mae angen ffrwd ariannu benodol ar gyfer disgyblion mudol, yn enwedig ar gyfer y rhai ag anghenion SIY, i sicrhau bod ysgolion sydd â chyfrannau uchel o ddisgyblion o'r fath yn cael adnoddau digonol.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							athrawon a chadw gafael ar eu hiaith eu hunain.	Dylai ysgolion ddarparu arweiniad gyrfaoedd yn gynnar yn y broses i ddisgyblion mudol, ond yn enwedig pobl ifanc sy'n cyrraedd yn agos at ddiwedd addysg orfodol. Dylai rhieni hefyd fod yn rhan o'r broses er mwyn iddynt allu cynorthwyo gyda phroses pontio eu plant.
Greater Manchester Immigration Aid Unit <u>Testun llawn</u>	2019	Not so straightforward: experiences of children in care and care leavers in Greater Manchester affected by Brexit immigration changes	Adroddiad	Plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ym Manceinion Fwyaf	I ddarganfod mwy am brofiad plant a phobl ifanc ym Manceinion Fwyaf yr effeithir arnynt gan newidiadau mewn fudo Brexit.	Apwyntiadau gyda'u huwch gyfreithiwr ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n wladolion yr UE/AEE/Swistir. Rhoddwyd rhestr o wybodaeth a dogfennaeth ofynnol i weithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol a gofynnwyd iddynt gysylltu â nhw ymlaen llaw i wirio addasrwydd ac i drefnu apwyntiad.	Nid oedd yr un o'r plant a'r bobl ifanc a welwyd yn gallu gwneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. • Diffyg tystiolaeth – o genedligrwydd a pharhad preswyllo yn y DU – oedd y prif reswm pam nad oeddent yn gallu gwneud ceisiadau. • Roedd mwy na hanner wedi bod yn y DU am amser hir – rhwng pump a 14 mlynedd. • Aseiad cyfreithiol oedd y byddai gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a welwyd ragolygon da o wneud cais llwyddiannus am ddinasyddiaeth Brydeinig (a gallent fod wedi gwneud hynny eisoes).	Mae'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE wedi'i gynllunio ar gyfer pobl sy'n byw bywydau trefnus, syml sydd â'r dystiolaeth i brofi hynny; nid plant â hanes bywyd aflonyddgar sydd ag ychydig o berchnogaeth ar ddogfennau sy'n dangos eu cenedligrwydd na lle maent wedi bod yn byw. Ni allai unrhyw un o'r plant neu'r bobl ifanc wneud cais oherwydd nad oedd ganddynt y dystiolaeth ofynnol.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							<ul style="list-style-type: none"> • I'r mwyafrif o bobl ifanc nid oedd eu hawdurdod lleol yn ymwybodol o'u statws mewnfudo presennol ac nid oedd wedi ceisio datrys unrhyw faterion mewnfudo o'r blaen. Roedd dros draean wedi bod yng ngofal y gwasanaethau plant ers dros bum mlynedd. • Roedd mwy na hanner yn eu harddegau canol i ddiwedd eu harddegau ac felly'n debygol o gyrraedd 18 oed erbyn diwedd unrhyw gyfnod pontio Brexit. Oni bai bod cais llwyddiannus yn cael ei wneud byddai hyn yn gadael iddynt gael eu trin fel oedolion yn anghyfreithlon yn y DU. 	
Nando Sigona, Marie Godin Eurochildren Research Brief Series, No.8, Prifysgol Birmingham <u>Testun llawn</u>	2019	EU Families in Scotland after the Brexit Referendum : Fears, Hopes and Belonging	Adroddiad	Teuluoedd yr UE sy'n byw yn yr Alban	Cael y safbwyntiau a deall profiadau'r teuluoedd o'r UE a'u plant yng ngoleuni'r bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd.	Dadansoddiad ystadegol o setiau data a chyfweiliadau cenedlaethol, grwpiau ffocws, arolwg dilynol a phrosiect lluniau cyfranogol	Er gwaethaf rhannu'r ansicrwydd ynghylch canlyniad proses Brexit, mae teuluoedd yr UE yn yr Alban yn teimlo mwy o groeso ac yn fwy diogel nag i'r de o'r ffin. Cyfrannodd tri phrif ffactor at hyn: a) Y geiriau o sicrwydd a ddaeth ar ôl y refferendwm gan lywodraeth yr Alban a gyfeiriwyd yn uniongyrchol at wladolion yr UE; b) Buddugoliaeth Remain a gymerwyd fel tystiolaeth bod mwyafrif poblogaeth yr Alban o blaid Ewrop; a c) Y negeseuon cadarnhaol am fudo a'r UE o gyfeiriad Llywodraeth	Mae rhoi sylw i ddosbarth, ethnigrwydd, oedran, cyfnod bywyd, a rhyw yn hanfodol ar gyfer dealltwriaeth fwy cynnil nid yn unig o effaith Brexit, ond hefyd o'r adnoddau a'r opsiynau sydd ar gael i deuluoedd ar gyfer lliniaru'r effaith hon.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							yr Alban. Mae'r holl gyfranogwyr yn rhannu rhwystredigaeth, pryder a siom ynghylch Brexit.	
Yeo C	2018	The impact of the UK-EU agreement on citizenship rights for EU families	Briffio	Dinasyddion yr UE yn byw yn y DU	Yn archwilio'r prif lwybrau at gaffael dinasyddiaeth Brydeinig sydd ar gael i ddinasyddion yr UE a'u plant.	Amh	<p>Bydd llawer o blant sy'n cael eu geni yn y DU i rieni sy'n ddinasyddion yr UE mewn egwyddor yn cael eu geni'n Brydeinig yn awtomatig. Fodd bynnag, lle nad oedd y naill na'r llall o'r rhieni yn Brydeinwyr neu wedi setlo o'r tu allan i'r UE, bydd yn anodd iawn neu efallai'n amhosibl i rai o'r plant hynny brofi eu hawl yn ddiweddarach mewn bywyd.</p> <p>Bydd rhai plant i ddinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU ar hyn o bryd wedi'u geni dramor. Lle nad oedd y naill na'r llall o'r rhieni yn Brydeinwyr ar adeg ei eni, ni all plentyn a aned dramor fel arfer gael dinasyddiaeth Brydeinig nes ei fod yn oedolyn.</p> <p>Rhwystro sylweddol i gaffael dinasyddiaeth Brydeinig trwy gofrestru ar ôl genedigaeith i blant dinasyddion yr UE. Bydd yn dod yn fwy o broblem ar ôl colli'r hawliau symudiad rhydd i ddod i mewn a gadael y DU yn rhydd ar ôl Brexit. Mae'n bosibl na fydd rhieni'n gwybod nac yn deall y gallai plentyn gael ei gofrestru fel dinesydd Prydeinig unwaith y bydd o leiaf un o'r rhieni wedi setlo neu fod y plentyn</p>	Bydd y statws mewn fudo ôl-Brexit o statws dros dro a phreswlydd sefydlog yn lleddfu'r problemau hyn i blant sy'n cael eu geni ar ôl Brexit ac yn lleihau'r rhwystrau gweinyddol i frodori ar gyfer oedolion sy'n ddinasyddion yr UE, ond ni fydd yn cael effaith ôl-weithredol. Mae'r problemau hanesyddol gyda'r rhyngweithiad rhwng cyfraith cenedligrwydd Prydeinig a dehongliad y DU o gyfraith yr UE yn debygol o amddifadu llawer o ddinasyddion yr UE o'u hawl i gaffael dinasyddiaeth.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							wedi bod yn preswyllo am 10 mlynedd ar ôl cael ei eni yn y DU. Ers 2015 bu'n ofynnol i ddinasyddion yr UE wneud cais yn gyntaf am ddogfen preswyllo parhaol cyn bod yn gymwys i wneud cais am frodori. Nid yw llawer o ddinasyddion yr UE (er enghraifft rhieni sy'n aros gartref, gofalwyr, enillwyr cyflog isel a gweithwyr rhan amser, y rhai sydd wedi profi salwch neu ddiweithdra a dinasyddion "A8" na chofrestrodd eu cyflogaeth) wedi bod yn preswyllo'n gyfreithlon ac felly nid ydynt yn gymwys ar gyfer brodori ac, yn waeth, gallant gael eu heithrio rhag brodori ar sail arhosiad anghyfreithlon. Mae hyn yn berthnasol i breswylwyr tymor hir yn ogystal â newydd-ddyfodiaid.	
Sime et al	2017	Eastern European Young People in Brexit Britain: Racism, anxiety and a precarious future	Papur Briffio Ymchwil a Pholisi	Pobl Ifanc o Ddwyrain Ewrop (12 - 18 oed) sy'n byw yn y DU am 3+ blynedd	Archwilio sut mae polisiau mudo a mewnfudo cyfredol yn effeithio ar eu bywydau, pa mor fodlon ydynt ar wasanaethau lleol, ansawdd eu perthnasoedd, a beth yw eu teimladau o	Arolwg ar-lein	Cwblhaodd 1120 o bobl ifanc yr arolwg, a chwblhawyd 807 yn llawn. Pwyliaid oedd mwyafrif yr ymatebwyr (56%). Penderfyniad y DU i adael yr UE: dywedodd y mwyafrif eu bod yn teimlo'n 'ansic' (56%), 'yn bryderus' (54%) neu'n 'ofnus' (27%) ynghylch eu dyfodol. Roedd y rhan fwyaf wedi byw yn y DU am fwy na 5 mlynedd, dim ond lleiafrif	Dylai sefydliadau a Llywodraethau datganoledig weithio gyda Llywodraeth y DU i wneud gwarantu hawliau gwladolion yr UE yn flaenoriaeth. Dylai sefydliadau sy'n gweithio gyda gwladolion yr AEE sicrhau bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn gallu

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
					hunaniaeth a pherthyn yn y DU.		<p>bach iawn (8%) oedd â chenedligrwydd Prydeinig neu ddeuol. Dywedodd llawer y byddai eu teuluoedd yn ei chael hi'n anodd fforddio'r ffi dinasyddiaeth (£1,330). Dywedodd rhai fod eu rhieni yn blaenoriaethu ceisiadau dinasyddiaeth plant dros eu hunain i helpu i wneud statws eu plant yn fwy sicr.</p> <p>Disgrifiodd y rhan fwyaf o bobl ifanc ddigwyddiadau hiliol a senoffobig y gwnaethant eu profi neu eu gweld ers pleidlais Brexit. Dywedodd bron i hanner (49%) yr ymatebwyr eu bod wedi gweld 'mwy o hiliaeth' ers Refferendwm Brexit.</p> <p>Teimlai mwyafrif (74%) yn 'weddol fodlon' neu 'fodlon iawn' gyda'u bywyd yn y DU.</p>	<p>cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf am benderfyniadau a wneir mewn perthynas â'r sefyllfa ar ôl Brexit a'u statws. Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc yn ansicr ynghylch eu hawliau a ble i ddod o hyd i wybodaeth.</p> <p>Mae angen sicrhau bod ysgolion yn herio agweddau hiliol ymhlith disgyblion ac athrawon ar unwaith a gwella'r dulliau o adrodd a delio â digwyddiadau.</p> <p>Dylai gwasanaethau ystyried rhoi cymorth emosiynol i bobl ifanc Ewrop yn ystod cyfnod pontio Brexit, o ystyried yr ansicrwydd y bydd llawer yn ei brofi mewn perthynas â'u dyfodol.</p> <p>Parhau i ymgynghori â phobl ifanc o Ddwyrain Ewrop ar bolisiau yn y dyfodol. Dylent gymryd rhan lawn mewn unrhyw ymgynghoriadau ar lefel</p>

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
								leol, ranbarthol a chenedlaethol, i sicrhau bod eu profiadau a'u hanghenion yn llywio polisi ac arfer.
Ursula Kelly ac Iain McNicoll Viewforth Consulting Ltd (GWELER YR ADRAN FFOCWS CYMRU)	2017	The Economic Impact of International Students in Wales						
Holly Porteous <u>Migrants and Education in Aberdeen/shire</u> Prifysgol Glasgow,	2017	Migrant Experiences in Aberdeen/shire: SSAMIS 2017 Report Series	Adroddiad	Ymfudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop sy'n byw yn Swydd Aberdeen, yr Alban	Rhan o gyfres o bapurau yn 2017 yn ymwneud â mudo yn Swydd Aberdeen, gan gwmpasu gofaliadau iechyd, addysg, dysgu iaith, cyflogaeth a thai	Cyfweliadau gyda dros 200 o ymfudwyr a 60 o arbenigwyr ar draws yr Alban, gyda ffocws arbennig ar Ddinas Aberdeen a Swydd Aberdeen wledig	Ysgolion: roedd llawer o ymfudwyr naill ai'n dod â phlant gyda nhw, neu wedi cael plant ers dod i'r Alban, ac yn y ddau achos yn awyddus i beidio ag amharu ar eu haddysg ar ôl iddynt ymuno â system yr Alban. Roedd gan ymfudwyr farn gymysg am ysgolion yr Alban, ac nid oeddent bob amser yn ddigon hyderus i ymgysylltu ag addysg eu plant oherwydd eu bod yn anghyfarwydd â normau iaith a diwylliant yr Alban.	Mae addysg, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion, wedi bod yn ffactor pwysig wrth ddylanwadu ar ymfudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop i ymgyrtu'n barhaol yn Swydd Aberdeen ac yn yr Alban yn fwy cyffredinol. Er bod llawer o ymfudwyr yn cydnabod y gefnogaeth a roddir i

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
Prifysgol Abertawe							<p>Addysg i Oedolion: Roedd yr Alban yn apelio at lawer o ran addysg oedolion: gallai ymfudwyr o'r UE gofrestru ar gyrsiau coleg yn weddol hawdd, lle'r oeddent yn caffael sgiliau newydd neu'n gwella eu Saesneg. Aeth rhai ymlaen i addysg uwch neu weithio tuag at radd newydd. Fodd bynnag, oherwydd problem ehangach gyda dadsgilio ymhlith mudwyr, gorfodwyd llawer i wyro oddi wrth eu harbenigeddau blaenorol: hyd yn oed os oeddent wedi bod yn dra chymwys yn eu gwlad wreiddiol, canfuwyd yn aml nad oedd cymwysterau'n cael eu derbyn yn yr Alban neu'n gyfyngedig o ran cyflogaeth yn ôl lefel eu Saesneg. Roedd ennill cymhwyster Albanaidd felly yn un ffordd o symud allan o waith di-grefft a chyflog isel, hyd yn oed os nad oedd ymfudwyr bob amser yn gallu aros yn y sectorau yr oeddent wedi gweithio ynddynt yn flaenorol.</p>	<p>blant iau sy'n ymgartrefu mewn ysgolion yn yr Alban, roedd yn ymddangos bod mudwyr a gyrhaeddodd yn eu harddegau yn cael mwy o anhawster ffitio i mewn, hyd yn oed os oedd eu Saesneg yn dda. Gellid rhoi mwy o gymorth wedi'i dargedu i'r grŵp oedran ysgol uwchradd.</p> <p>Byddai'n fuddiol cyfeirio mwy o fewnfudwyr at asiantaethau sy'n canolbwyntio ar sgiliau sy'n darparu cymorth gyda chwilio am waith a CVs, megis Skills Development Scotland.</p>
Oxford Economics (GWELER YR ADRAN FFOCWS CYMRU)	2011	The Impact of International and EU students in Wales						

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
CYFLOGAETH								
Renee Reichl Luthra	2021	Mitigating the hostile environment : the role of the workplace in EU migrant experience of Brexit	Erthygl Cyfnodolyn Academaidd	Staff yr UE a rheolwyr tair prifysgol yn y DU	Archwilio'r profiad o Brexit gan ymfudwyr medrus iawn mewn sector a oedd yn dibynnu ar ymfudo o'r UE, a'r ffyrdd y mae cyflogaeth mewn addysg uwch wedi amddiffyn staff rhag ei effaith	Cyfweliadau lled-strwythuredig gyda 37 aelod o staff	<p>Datgelodd y cyfweliadau y ffyrdd yr oedd pleidlais Brexit wedi amharu ar ganfyddiadau blaenorol bywyd yn y DU, gan greu teimladau newydd o fregusrwydd o ran hawliau yn ogystal â derbyniad cyhoeddus.</p> <p>Roedd cymorth symbolaidd ac ymarferol a ddarparwyd gan reolwyr, yn ogystal â chymorth anffurfiol gan gydweithwyr, yn lleddfu'r sioc hon i weithwyr yr UE.</p>	Yn dangos y posibilrwydd, ond hefyd y cyfyngiad ar ymdrechion y gweithle a chyflogwyr fel dylanwad lefel-meso ym mhrofiad polisi mudo ar gyfer gweithwyr mudol. Mae canolbwyntio ar yr 'achos gorau' hwn yn dangos ystod eang o ddimensiynau cymorth posibl y gall cyflogwyr eu darparu, ond mae hefyd yn datgelu cyfyngiadau cyflogwyr o fewn sector mawr a dylanwadol hyd yn oed o ran amddiffyn eu gweithwyr rhag amgylchedd gelyniaethus.
Eugenia Markova, Russell King European Urban and	2021	Leave or remain? The post-Brexit (im)mobility intentions of Bulgarians	Erthygl Cyfnodolyn	Bwlgariaid sy'n byw yn y DU	Pa ffactorau sy'n llywio cynlluniau ymfudwyr o'r Undeb Ewropeaidd i aros	Arolwg ar-lein o 360 o Fwlgariaid	Mae rhai a ddaeth i'r DU yn gynharach yn fwy tebygol o aros ar ôl Brexit. Mae'r rhai sydd wedi bod yn y DU yn hirach yn fwy tebygol o fod yn hŷn, yn briod neu mewn partneriaeth ramantaidd sefydlog (gan gynnwys gyda rhywun nad yw'n Fwlgaraidd), o	Er gwaethaf adroddiadau yn y cyfryngau bod 'Brexodus' o ymfudwyr o'r UE yn dychwelyd i'w gwledydd cartref, mae tystiolaeth o'r arolwg

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
Regional Studies 28(1), t.58-65 <u>Testun llawn</u>		in the United Kingdom			yn y DU neu adael y DU?		<p>gael plant ac o fod yn berchen ar eiddo – sydd oll yn ffactorau sy'n eu hangori i'r man lle maent yn byw ar hyn o bryd ac yn ei gwneud hi'n anoddach 'godi pac' a gadael.</p> <p>Yn rhanbarthol, mae ymatebwyr yn Llundain, De-ddwyrain Lloegr a Chanolbarth Lloegr yn fwy tebygol o fod eisiau aros, ond yng Nghymru, yr Alban a Dwyrain Lloegr maent yn fwy tueddol o fod eisiau gadael. Mae lefelau sgiliau gwahanol yn rhannol y tu ôl i'r cyferbyniad rhanbarthol hwn. Mae dros ddwy ran o dair o'r rhai yn Llundain sydd am aros mewn swyddi sgiliau uchel ac uwch-canolig, gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, peirianwyr a staff prifysgol. Mae tri chwarter y rhai sy'n bwriadu gadael yn rhanbarth y Dwyrain, a dwy ran o dair yng Nghymru, yn weithwyr sgiliau isel ac is-ganolig.</p>	<p>hwn o Fwlgariaid yn dangos bod llawer am aros yn y DU. Maent yn mynd ati i angori eu hunain trwy integreiddio dinesig, a chyflogaeth a gyrfaoedd llwyddiannus, yn ogystal â seilio eu bywydau personol ac emosiynol yma. Ar ben hynny, mae eu niferoedd yn parhau i dyfu – mwy na dwy ran o dair ers y refferendwm, yn ôl ystadegau swyddogol.</p> <p>Mae Bwlgariaid sy'n bwriadu aros wedi byw'n hirach yn y DU, yn weithwyr proffesiynol medrus ac wedi'u hintegreiddio'n dda i'r farchnad lafur. I'r gwrthwyneb, mae ymatebwyr sy'n teimlo y bydd gwahaniaethu yn eu herbyn yn y farchnad lafur neu wrth sefydlu busnes yn fwy tebygol o fwriadu gadael ar ôl Brexit.</p>

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
								© Yr Awdur(on) 2020
Rosso A.	2021	Eastern European immigrants in the UK	Erthygl Cyfnodolyn	Mewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop yn erbyn brodorion y DU cyn ac ar ôl ehangu 2004	Archwilio datblygiadau cyflog ymhlith mewnfudwyr o Ddwyrain Ewrop yn erbyn brodorion y DU cyn ac ar ôl ehangu 2004 trwy fesur i ba raddau y gellir esbonio gwahaniaethau cyflog rhwng grwpiau gan briodoleddau newidiol y grwpiau hyn neu gan wahaniaethau mewn enillion i'r nodweddion hyn.	Dadansoddiad meintiol o'r bwlch cyflog mewnfudwyr– brodorol ar draws y dosbarthiad cyfan trwy gymhwysio atchweliad meintiol diamed.	Ym mhob pwynt dosbarthu, mae israddio galwedigaethol yn chwarae rhan fawr, sy'n cynyddu dros amser. Mae'r canlyniadau'n awgrymu ymhellach bod y lefelau cyflog is ar frig y dosbarthiad yn deillio'n bennaf o drosglwyddadwyedd isel y sgiliau a enillwyd yn y wlad ffynhonnell.	
Heather Taylor, Rebecca Florisson a Melanie Wilkes Work Foundation	2020	Post – Brexit Labour Supply and Workforce Planning: Key questions for policymakers	Adroddiad	Dinasyddion yr UE a gyrhaeddodd y DU rhwng 2017 a 2019, rhwng 18 a 65 oed, nad ydynt mewn	Amcangyfrif y nifer posibl dinasyddion yr UE a fyddai'n anghymwys i gael mynediad i'r DU o dan reolau'r system fewnfudo newydd ar sail pwyntiau, drwy gymhwysio'r	Dadansoddi Data	Hyd at 160,000 o ymfudwyr o'r UE sy'n byw ac yn gweithio yn y DU ar hyn o bryd na fyddent yn gymwys i symud i'r DU o dan reolau mewnfudo newydd, wedi'u crynhoi'n bennaf mewn sectorau fel lletygarwch, manwerthu a gweithgynhyrchu.	Bydd system fewnfudo newydd sy'n seiliedig ar enillion yn ysgogi newidiadau sylweddol i farchnad lafur y DU, a bydd yn cyflwyno heriau amlwg i wahanol sectorau (yn enwedig gofal cymdeithasol a lletygarwch).

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
				addysg amser llawn	rheolau hyn i newydd-ddyfodiaid UE sydd eisoes yn byw ac yn gweithio yn y DU gan ddefnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth			
GSR, Llyw. Cymru (GWELER FFOCWS CYMRU)	2020	Dinasyddion yr UE sy'n Byw yng Nghymru	Adroddiad					
Klaudia Martynowska, Tomasz Korulczyk, Piotr Janusz Mamcarz PLoS ONE 15(7): e0236168 <u>Testun llawn</u>	2020	Perceived stress and well-being of Polish migrants in the UK after Brexit vote	Erthygl cyfnodolyn	Ymfudwyr Pwylaidd sy'n byw mewn gwahanol ranbarthau o'r DU	Ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar les personol mewnfudwyr Pwylaidd sy'n byw yn y DU yn wyneb newid gwleidyddol sylweddol — y bleidlais Brexit.	Arolwg ar-lein Qualtrics (n – 551)	Ni sylwodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ar unrhyw newid yn agwedd neu ymddygiad eu goruchwylwr (81%) neu gydweithwyr (84%), a dim ond canran fach o'r cyfranogwyr a nododd newidiadau negyddol yn agwedd neu ymddygiad y goruchwylwr (9%) a chydweithwyr (14%). Hefyd, mae newid negyddol yn agwedd neu ymddygiad goruchwylwr neu gydweithwyr yn gysylltiedig â straen canfyddedig, sydd yn ei dro yn gysylltiedig â bwriad i adael y DU, lles seicolegol a boddhad bywyd.	Nid yw cydfodolaeth Gwlad Pwyl a Phrydain mewn lleoliad gweithle wedi newid rhyw lawer ar ôl pleidlais Brexit.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							© 2020 Martynowska et al.	
Elena Genova, Elisabetta Zontini Central and Eastern European Migration Review 9(1), t.47-64 <u>Testun llawn</u>	2020	Liminal Lives: Navigating In-Betweenness in the Case of Bulgarian and Italian Migrants in Brexiting Britain	Erthygl Cyfnodolyn	Mudwyr Bwlgaraidd (newydd) ac Eidalaid (hen) Ewropeaidd sy'n byw yn y DU	Archwilio profiadau Brexit ac arferion ymdopi	Arsylwi cyfranogwyr a chyfweliadau lled-strwythuredig	Trwy gymharu profiadau Eidalwyr fel hen grŵp UE â phrofiadau Bwlgariaid fel grŵp UE newydd, mae profiadau o drothwyo yn amrywio rhwng y ddau grŵp hyn. Fodd bynnag, nid oedd ethnigrwydd a hyd aelodaeth yn yr UE yn ymddangos fel yr unig ffactor pwysig wrth gyfrif am wahaniaethau o'r fath. Mae hyd arhosiad neu, yn hytrach, y cyfnod a'r rheswm dros gyrraedd, yn cael effaith ddofn ar y ffyrdd y profodd cyfranogwyr gyfnod trothwyol Brexit. Mae'r rhai a gyrhaeddodd yn anterth amlddiwylliannedd yn profi anesmwythder dwys wrth wrthod gwerthoedd o'r fath a lledaeniad teimladau cenedlaetholgar. Mae'r rhai sy'n gallu gwneud yn cynllunio symudedd pellach neu hyd yn oed fudo yn ôl. Mae'r rhai a gyrhaeddodd yn ddiweddar, yn aml hefyd wedi'u gwthio gan argyfyngau economaidd a gwleidyddol yn eu gwledydd eu hunain, yn synnu llai ac felly'n teimlo'n llai yr effeithir arnynt gan gyd-destun Brexit. Y grŵp olaf felly yw'r rhai sy'n fwy parod i aros ar ôl Brexit ac i	Mae Brexit wedi arwain at golli cyfeirbwyntiau ar gyfer ymfudwyr Ewropeaidd yn y DU – a all fod yn ryddhadol ac yn gythryblus, yn dibynnu ar safle ymfudwyr fel pynciau anghyfartal o'r UE yn ogystal â'u barn ar natur eu hailgorffori yn y dyfodol ym Mhrydain wedi Brexit.

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
							<p>dderbyn pa fath bynnag o ail-gorffori a gynigir iddynt.</p>	

Awdur Cyntaf	Blwyd dyn	Teitl	Math o Gyhoeddiad	Lleoliad/ Poblogaeth	Nod/Prif Ffocws	Cynllun	Prif ddarganfyddiadau	Canfyddiadau/ Argymhellion yr Awdur
